

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol

2016/17



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	03
<b>Ymgynghori</b>	05
<b>Adran 1</b>	
• Asesiad o'n Perfformiad yn erbyn Blaenoriaethau Gwella	06
• Rheoli Risg	08
• Crynodeb o'r Data Perfformiad	08
<b>Adran 2</b>	
• Adroddiad Manwl ar Flaenoriaethau Gwella	12
<b>Adran 3</b>	
• Cydraddoldeb	48
• Y Gymraeg	48
• Datblygu Cynaliadwy	49
• Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio	49
• Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu	50
• Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	54
<b>Atodiadau</b>	
<b>Atodiad A</b> - Cynllun Gwella 2016/17 Cofrestr Risg	55
<b>Atodiad B</b> - Tabl Data Mesurau Cynllun Gwella	55
<b>Atodiad C</b> - Tabl Data Dangosyddion Cenedlaethol	55
<b>Atodiad D</b> - Rhestr Termâu	55
Sut i gysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth ac i roi adborth	55
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad A – Cynllun Gwella 2016/17 Cofrestr Risg	04
Tabl 2 - Crynodeb o Berfformiad Blaenoriaeth 2016/17	06
Tabl 3 - Cynigion cynghorol ar gyfer gwelliant gan yr Archwilydd Cyffredinol	51
Siart 1a - Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn ein mesurau targed 2016/17	09
Siart 1b - Tuedd perfformiad ar gyfer ein mesurau Cynllun Gwella	09
Siart 2a - Perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol	10
Siart 2b - Tuedd perfformiad ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol	10
Siart 3 - Nifer o fesurau cenedlaethol yn ôl safle'r chwarterl	11

# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2016/17 yn erbyn y blaenoriaethau yr ydym yn eu gosod.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu: -

- Cynnydd yn erbyn camau gweithredu a phrosiectau allweddol.
- Gwybodaeth perfformiad gwirioneddol a chymharol yn erbyn dangosyddion perfformiad a bennir yn lleol ac yn genedlaethol.
- Asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau a'r heriau strategol y mae'n eu hwynebu.
- Canlyniadau gwaith rheoleiddio allanol ac ymateb y Cyngor i wella llywodraethu a gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad.

Mae cyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn bodloni'r gofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol 'edrych yn ôl' ar ein Cynllun Gwella fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009). Mae'r Cynllun Gwella, ein cyhoeddiad 'edrych ymlaen' yn bodloni'r gofyniad statudol arall. Wrth fodloni'r gofynion hyn dangosodd y Cyngor system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

## Gosod Blaenoriaethau

Mae gan y Cyngor bwysau a blaenoriaethau sy'n cystadlu. Mae rhai blaenoriaethau yn 'hunanddewis' i gyflawni amcanion polisi cymdeithasol llywodraeth genedlaethol megis tai ac addysg. Mae eraill yn cael eu gosod yn fwy lleol.

Mae'r blaenoriaethau wedi eu ffurfio gan gynghorwyr ar draws ein Cabinet a'r swyddogaethau Trosolwg a Chraffu i sicrhau parhad dadansoddi ar gyfer perfformiad y gorffennol, presennol a'r dyfodol gall y Cyngor gael ei farnu yn eu herbyn. Mae perchnogaeth eang o'r blaenoriaethau o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae'r set hon o wyth blaenoriaeth wedi'i gefnogi gan gyfres o is-flaenoriaethau (a welir drosodd yn Nhabl 1) wedi helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ar y pethau lle'r oedd angen sylw mwyaf yn ystod 2016/17. Mae'r blaenoriaethau sy'n weddill o flynyddoedd blaenorol wedi cael eu rheoli fel materion mwy arferol y tu allan i'r Cynllun.

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel corff democrataidd cynrychioliadol ac yn gosod ei flaenoriaethau ar sail y dystiolaeth mae wedi'i chasglu o sawl ffynhonnell. Mae ein haelodau etholedig mewn cysylltiad gyda barn leol drwy: -

- Gynrychiolaeth ddemocrataidd.
- Fforymau Partneriaeth.
- Ymgynghori statudol.
- Ymgynghori â'r gymuned /defnyddwyr yn uniongyrchol

Tabl 1: Blaenoriaethau Gwella 2016/17

Blaenoriaeth	Is-Flaenoriaeth	Effaith cynlluniedig
<b>Tai</b>	Tai Priodol a Fforddiadwy	Gwella dewis ac ansawdd tai lleol
	Cartrefi Modern, Effeithlon ac Wedi'u Haddasu	
<b>Byw'n Dda</b>	Byw'n Annibynnol	Galluogi mwy o bobl i fyw yn annibynnol ac yn dda gartref
	Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Cymunedol Integredig	Sicrhau bod oedolion, pobl ifanc a phlant yn cael eu diogelu
	Diogelu	
<b>Economi a Menter</b>	Twf ac Adfywio Sector Busnes	Tyfu'r economi a chreu swyddi
<b>Sgiliau a Dysgu</b>	Prentisiaethau a Hyfforddiant	Gwella'r ddarpariaeth dysgu a chyfleoedd i gyflawni gwell canlyniadau i ddysgwyr
	Addysg wedi'i Foderneiddio ac sy'n Perfformio'n dda	
<b>Cymunedau Diogel</b>	Diogelwch Cymunedol	Cadw pobl a chymunedau'n ddiogel
<b>Tlodi</b>	Gwneud y mwyaf o incwm	Diogelu pobl rhag tlodi
<b>Amgylchedd</b>	Seilwaith Trafnidiaeth a Gwasanaethau	Mynediad diogel at waith, gwasanaethau a chyfleusterau lleol
	Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Amgylcheddol	Diogelu ein hamgylchedd lleol
<b>Cyngor Modern ac Effeithlon</b>	Developing Communities	Supporting communities to become more resilient
	Gwella Rheoli Adnoddau	Gwasanaethau rheng flaen yn cael eu cefnogi yn effeithiol ac effeithlon

Sylwer: Mae cynllun lliwiau a ddefnyddir yn y tabl hwn yn cael ei ddefnyddio trwy gydol y ddogfen er mwyn hwyluso cydnabyddiaeth.

# Ymgynghori

Mae ymgynghori ac ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n cymunedau yn digwydd mewn sawl ffordd wahanol: democratiaeth cynrychioladol drwy ein haelodau etholedig, ymgysylltu strwythurol e.e. drwy'r Fforwm Sirol (gyda chynghorau tref a chymuned), asesiadau anghenion ffurfiol drwy ein partneriaethau strategol, arolygon ac adborth, gweithdai a sioeau teithiol. Mae dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio yn ôl yr amgylchiadau, y math o gynulleidfa, a'r cyrhaeddiad o sylw a geisir.

Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017, cynhaliwyd ystod o ymgynghoriadau gyda budd-ddeiliaid yr effeithir arnynt. Dyma enghreifftiau o'r rhain:

- Arolwg Ailgylchwch Fwy (Mawrth - Ebrill 2016)
- Cynllun Gweithredu Ynni Adnewyddadwy 10 Mlynedd (Mai – Mehefin 2016)
- Ein Sir y Fflint, Ein Dyfodol (Tachwedd 2016)

Wedi'n hysgogi gan doriadau digynsail a ragwelwyd i gyllideb y Cyngor, gwnaethom gynnal cyfres o ymgynghoriadau cyhoeddus i ganfod barn pobl leol am wasanaethau'r cyngor a sut y dylent gael eu diogelu. Galwyd yr ymgynghoriad hwn Ein Sir y Fflint, Ein Dyfodol. Yn yr ymarfer hwn, gwnaethom nodi difrifoldeb y sefyllfa a gofynnwyd i bobl a fyddent yn cefnogi rhai o'r dewisiadau byddai angen i'r Cyngor wneud yn y dyfodol.

# Adran 1

## Asesiad o'n Perfformiad yn erbyn Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2016/17

Ar gyfer 2016/17 roedd gan y Cyngor 8 Blaenoriaeth Gwella fel y manylir yn ei Gynllun Gwella. Mae'r 7 blaenoriaeth gyntaf yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac mae'r flaenoriaeth olaf yn ymwneud â'r sefydliad corfforaethol fel 'busnes cymdeithasol'.

Mae Tabl 2 isod yn dangos crynodeb o "gynnydd" diwedd y flwyddyn a hyder mewn bodloni asesiad "canlyniad" ar gyfer pob blaenoriaeth yn seiliedig ar yr allwedd statws coch, oren, gwyrdd canlynol (COG).

Mae pob gweithgaredd yn yr Adroddiad wedi eu sgorio fel a ddisgrifir yn yr 'allwedd' isod. Mae'r rhain wedi'u sgorio (COG) ar gyfer cynnydd a/neu berfformiad. Mae dadansoddiad wedi'i wneud o nifer y gweithgareddau ym mhob categori COG i ddarparu sgôr gyfun ar gyfer pob pennawd blaenoriaeth ac is-flaenoriaeth. Pan fo nifer gyfartal o 2 sgôr, defnyddir yr isaf bob amser. Aseswyd y statws COG Canlyniad isod fel rhan o'r adroddiadau diwedd blwyddyn ym mis Mehefin.

Allwedd Statws CYNNYDD COG	Allwedd Statws CANLYNIAD COG
<b>C</b> <b>Cynnydd Cyfyngedig</b> - oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn	<b>C</b> <b>Isef</b> - lefel is o hyder wrth gyflawni'r canlyniad(au)
<b>O</b> <b>Cynnydd Boddhaol</b> - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn ar y cyfan	<b>O</b> <b>Canolig</b> - lefel ansicrwydd o hyder wrth gyflawni'r canlyniad(au)
<b>G</b> <b>Cynnydd Da</b> - gweithgareddau'n cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd iawn	<b>G</b> <b>Uchel</b> - yn gwbl hyderus wrth gyflawni'r canlyniad(au)

Tabl 2: Crynodeb o Berfformiad Blaenoriaeth 2016/17

Blaenoriaeth / Is-flaenoriaeth	Cynnydd	Canlyniad
<b>Tai</b>	<b>G</b>	<b>O</b>
• Tai Priodol a Fforddiadwy	<b>G</b>	<b>G</b>
• Cartrefi Modern, Effeithlon ac Wedi'u Haddasu	<b>O</b>	<b>O</b>
<b>Byw'n Dda</b>	<b>G</b>	<b>G</b>
• Byw'n Annibynnol	<b>G</b>	<b>G</b>
• Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Cymunedol Integredig	<b>G</b>	<b>G</b>
• Diogelu	<b>G</b>	<b>G</b>
<b>Economi a Menter</b>	<b>G</b>	<b>G</b>
• Twf ac Adfywio Sector Busnes	<b>G</b>	<b>G</b>

Blaenoriaeth / Is-flaenoriaeth	Cynnydd	Canlyniad
<b>Sgiliau a Dysgu</b>	<b>G</b>	<b>G</b>
• Prentisiaethau a Hyfforddiant	<b>G</b>	<b>G</b>
• Addysg wedi'i Foderneiddio ac sy'n Perfformio'n Dda	<b>G</b>	<b>G</b>
<b>Cymunedau Diogel</b>	<b>O</b>	<b>O</b>
• Diogelwch Cymunedol	<b>O</b>	<b>O</b>
<b>Tlodi</b>	<b>G</b>	<b>G</b>
• Gwneud y mwyaf o incwm	<b>G</b>	<b>G</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>G</b>	<b>G</b>
• Seilwaith Trafnidiaeth a Gwasanaethau	<b>G</b>	<b>O</b>
• Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Amgylcheddol	<b>G</b>	<b>G</b>
<b>Cyngor Modern ac Effeithlon</b>	<b>O</b>	<b>O</b>
• Datblygu Cymunedau	<b>O</b>	<b>O</b>
• Gwella Rheoli Adnoddau	<b>G</b>	<b>O</b>

Mae Adran 2 yr adroddiad hwn (tudalen 12) yn rhoi asesiad manylach ar gyfer y “cynnydd” yn erbyn pob un o'r 14 is-flaenoriaeth sy'n cefnogi'r 8 Blaenoriaeth Gwella. Mae pob asesiad yn cynnwys dolen i'r adroddiad llawn ar gyfer yr is-flaenoriaeth fel a gyflwynwyd i'r pwyllgor craffu perthnasol ar ddiwedd y flwyddyn.

## Rheoli Risg

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Gwella ar gyfer 2016/17 ym mis Gorffennaf 2016. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor ail-alinio ei risgiau strategol i'r blaenoriaethau ac is-flaenoriaethau yn y Cynllun.

Mae dadansoddiad o lefelau risg diwedd blwyddyn ar gyfer y 51 o risgiau strategol a nodwyd yn y Cynllun Gwella fel a ganlyn: -

- Mae 11 (22%) yn isel (gwyrdd)
- Mae 10 (20%) yn fân (melyn)
- Mae 23 (45%) yn ganolig (oren)
- Mae 7 (13%) yn uchel (coch)

Cynhaliwyd dadansoddiad tueddiadau hefyd, gan gymharu lefelau risg ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r rhai ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd y dadansoddiad yn dangos bod: -

- 23 (45%) o risgiau wedi gostwng
- 26 (51%) o risgiau wedi aros yr un fath
- 2 (4%) o risgiau wedi cynyddu

Mae tabl cryno o'r risgiau ar ddiwedd y flwyddyn 2016/17 yn **Atodiad A**.

## Crynodeb o'r Data Perfformiad

### Crynodeb o Berfformiad Cenedlaethol (Sefyllfa Cymru Gyfan)

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ac Uned Ddata Llywodraeth Leol ddata perfformiad 2016/17 ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru (a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) ym mis Medi 2017. Roedd hyn yn cyd-fynd â throsolwg o dueddiadau cenedlaethol fel mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r **Bwletin Perfformiad Llywodraeth Leol** yn ddogfen ategol i'r adroddiad hwn.

### Gwella Ein Perfformiad


Mae'r perfformiad ar gyfer 2016/17 yn erbyn Mesurau ein Cynllun Gwella wedi'i grynhoi mewn tabl dangosydd perfformiad alldro (Siart 1a). Cyrhaeddodd 63% o ddangosyddion y targed neu well o gymharu â 60% yn 2015/16. Dim ond 6% o ddangosyddion wnaeth fethu targedau'n sylweddol o gymharu â 23% yn ystod 2015/16.

Mae gwelliannau o un flwyddyn i'r llall wedi'u crynhoi yn Siart 1b. Mae hyn yn dangos bod 56% o ddangosyddion naill ai'n gwella neu'n cynnal lefelau da o berfformiad.




Dadansoddiad o lefelau diwedd blwyddyn o berfformiad a nodwyd:-

**Siart 1a: Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn ein mesurau targed 2016/17**




**Siart 1b: Tuedd perfformiad ar gyfer ein mesurau Cynllun Gwella**




## Siart 2a: Perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol\*

Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus statudol cenedlaethol.



## Siart 2b: Tuedd perfformiad ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol\*


Dadansoddiad o nifer y dangosyddion yr oedd perfformiad wedi gwella, wedi cynnal neu wedi dirywio ar eu cyfer.



\*gweler Atodiad C am fanylion llawn y mesurau statudol cenedlaethol

### Siart 3: Gwelliant Awdurdod Lleol

Ar lefel leol, o'r 25 o ddangosyddion a oedd yn gymaradwy rhwng 2015/16 a 2016/17, roedd Sir y Fflint wedi gwella yn 17 (68%), gyda'r gwelliant mwyaf yng Nghymru.



Mae perfformiad chwarter Sir y Fflint yn dangos gwelliant parhaus rhwng 2015/16 a 2016/17. Yn fwy sylweddol, mae'n dangos mai Sir y Fflint yw'r awdurdod sydd wedi gwella fwyaf yn ystod 2016/17 o gymharu â 2015/16.

## Adran 2 - Adroddiad Manwl ar Flaenoriaethau Gwella

Tai

Cynnydd  
DaCanlyniad  
Canolig

## Tai Addas a Fforddiadwy

Cynnydd : Da    Canlyniad : Uchel

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn darparu gwasanaeth Datrysiadau Tai i atal digartrefedd i gynifer o aelwydydd â phosibl drwy:

- Nifer yr ymholiadau tai a gafodd eu datrys yn y pwynt cyswllt cyntaf.
- Cynnal canran yr aelwydydd a allai fynd yn ddigartref drwy atal digartrefedd am o leiaf 6 mis



## Yr hyn wnaethom ni



Yn ystod 2016/17 cysylltodd 3,362 o gwsmeriaid i gael cyngor a chymorth tai. Cafodd 2,130 o'r ymholiadau hyn eu rheoli yn y pwynt cyswllt cyntaf a'u cyfeirio'n uniongyrchol at y gwasanaethau priodol. Cyfeiriwyd y 1,232 oedd yn weddill i gael cyngor mwy arbenigol. Trwy reoli 63% yn y pwynt cyswllt cyntaf rydym wedi defnyddio capasiti timau arbenigol i ganolbwyntio ar yr achosion mwy cymhleth a brys yn unol â dyletswyddau statudol.



Er i ni wneud cynnydd da roedd heriau ychwanegol yn ystod 2016/17, gan gynnwys gostyngiad yn y llety preifat ar rent sydd ar gael er mwyn atal digartrefedd. Hefyd bu cynnydd yn nifer yr achosion cymhleth oedd yn gofyn am adnoddau arbenigol.

## 2

Ysgogi twf tai fforddiadwy drwy'r dulliau a ganlyn:

- Cynyddu nifer y tai Cyngor a thai newydd, fforddiadwy drwy'r Rhaglen Adfywio Tai Strategol (SHARP).
- Sicrhau'r nifer fwyaf o dai fforddiadwy y gellir eu darparu drwy'r system gynllunio.
- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy newydd a ddarperir drwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (SHG).

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Cymeradwywyd penodi Wates Residential fel partner datblygu'r Cyngor am bum mlynedd gyda'r nod o ddatblygu 500 o dai (200 o dai rhent cymdeithasol a 300 o dai fforddiadwy) ar amryw o safleoedd ar draws y sir gyda buddion adfywio a chymunedol. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn safle Custom House, Cei Connah, ym Mai 2016 ac fe'i cwblhawyd ym mis Rhagfyr. Symudodd y tenantiaid i'w cartrefi newydd cyn gynted ag y cafodd perchnogaeth ei drosglwyddo o'r datblygwr, Wates Residential, i'r Cyngor. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn safle Walks, Y Fflint, yn yr haf 2016 ac mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn Ebrill 2018.

✓ Adeiladwyd 12 tŷ Cyngor newydd drwy'r rhaglen SHARP ar safle hen ysgol Custom House, a bydd y gwaith yn parhau yn 2017/18.

✓ Mae Sir y Fflint wedi sicrhau 285 o eiddo sy'n cynnwys cynllun rhannu ecwiti ar gyfer prynwyr lleol tro cyntaf drwy gyfraniadau datblygwyr. Mae datblygwyr hefyd wedi rhoi eiddo gwerth £3m i NEW Homes. Rydym wedi sicrhau 9 uned a roddwyd ar gyfer NEW Homes a 42 arall a werthwyd drwy gynllun rhannu ecwiti: Oakenholt (2), Brychdyn (18), Parc Wepr (16), a Bwcle (6).

✓ Cyflenwyd 24 uned ychwanegol drwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol: roedd 10 yn dai â chymorth i bobl ag anableddau dysgu, 3 yn yr Wyddgrug, 7 yng Nghei Connah ac 14 uned gyffredinol ychwanegol yn yr Wyddgrug.

# Cartrefi Modern, Effeithlon ac wedi'u Haddasu

Cynnydd : **Boddhaol**    Canlyniad : **Canolig**

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn rhoi cymorth ariannol i drwsio, gwella ac addasu cartrefi sector preifat drwy:

- Drwsio a gwella 40 annedd sector preifat drwy raglen gyfalaf y Cyngor a Chynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Cwblhau addasiadau'n fwy prydlon, yn enwedig y rheini a ddarperir drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

## Yr hyn wnaethom ni



Eleni roedd nifer y benthyciadau adnewyddu tai a hawliwyd yn is na'r targed. Nodwyd nad oes llawer o alw am y Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi yn genedlaethol ac mae'n cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru.



Mae nifer cyfartalog y dyddiau a gymerir i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer plant wedi gwella. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyrraedd cyfartaledd o 249 diwrnod o'i gymharu â 455 yn 2015/16. Mae'r Grantiau ar gyfer oedolion wedi cymryd 248 diwrnod ar gyfartaledd i'w cwblhau o'i gymharu â 293 yn 2015/16.

2

2. Lleihau nifer y cartrefi sy'n wag am gyfnod hir drwy:

- Ddod â chartrefi gwag yn ôl i'w defnydd preswyl drwy Gynllun Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru.

## Yr hyn wnaethom ni



Mae cylch cyntaf benthyciadau ariannol Troi Tai'n Gartrefi yn dechrau cael eu had-dalu a'u hailgylchu i gefnogi prosiectau newydd. Bydd darparu mwy o fenthyciadau Troi Tai'n Gartrefi yn rhoi hwb pellach i hyn. Dylai ymestyn cyfnod ad-dalu'r benthyciad o dair i bum mlynedd, a chynyddu uchafswm y benthyciad sydd ar gael i £250,000 i bob ymgeisydd, hefyd arwain at fwy o geisiadau. Cafodd cyfanswm o 25 tŷ eu troi'n gartrefi yn ystod 2016/17 o'i gymharu â 34 yn ystod 2015/16.

\* Caiff Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl eu mesur yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae Cyngor Sir y Fflint yn rheoli addasiadau ar gyfer cyfnod cyfan o anghenion plentyn a all ymestyn dros nifer o flynyddoedd.

3

Cyflenwi'r strategaeth rheoli asedau 6 blynedd i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) ar gyfer holl Dai Cyngor Sir y Fflint drwy:

- Gwblhau cynlluniau gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru gwerth £21m, yn unol â'r Strategaeth Rheoli Asedau Tai.

## Yr hyn wnaethom ni



Mae'r Tîm Gwaith Cyfalaf wedi parhau â'r gwaith cadarnhaol a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn 1 ac mae'r cynnydd wedi parhau ym mlwyddyn 2. Cafodd y rhan fwyaf o'r contractau hyn eu caffael y llynedd ac roedd yr opsiwn i ymestyn yn seiliedig ar berfformiad y contractwr. Bydd Rhaglen Gyfalaf Safon Ansawdd Tai Cymru wedi ei chwblhau erbyn 2020. Mae targedau amser gwaith cyfalaf wedi gwella ar gyfer gosod ffenestri, drysau allanol, gosod ceginau newydd, ystafelloedd ymolchi, systemau trydanol, a synwryddion mwg.



Cwblhawyd y Rhaglen i roi cymorth i bobl gael cyflenwad nwy yn Nhreuddyn ddiwedd y llynedd. Fodd bynnag, oherwydd prisiau olew isel nid oes llawer o bobl wedi manteisio ar y cynllun. Mae'r gwaith o sefydlu'r Rhaglen ym Mhenyffordd hefyd wedi ei gwblhau bellach. Gan fod pris olew wedi codi o 23.8 c/litr i 54.2 c/litr disgwylir cynnydd yn nifer y gosodiadau wrth i breswylwyr benderfynu newid eu ffynhonnell ynni.



# Byw'n Dda Cynnydd | Canlyniad

Da Uchel

## Byw'n Annibynnol Cynnydd : Da Canlyniad : Uchel

**1** Yn ystod 2016/17 fe ddywedom ni y byddem yn sicrhau bod y ddarpariaeth cartrefi gofal yn Sir y Fflint yn galluogi pobl i fyw'n dda a chael ansawdd bywyd da drwy:

- Gyflenwi'r rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia i weithlu'r cartrefi gofal.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n ymwneud â chefnogi ansawdd a hyd a lled y ddarpariaeth nyrsio.
- Mynd i'r afael â'r pwysau ym maes gofal cartref a'r farchnad cartrefi gofal a gwella recriwtio a chadw staff.



### Yr hyn wnaethom ni

✓ Fe wnaethom weithio gydag 16 cartref preswyl a 3 chartref nyrsio i weithredu'r cynllun "Cynnydd i Ddarparwyr", sy'n cynnwys arweiniad a hyfforddiant er mwyn helpu gweithwyr gofal i gyflenwi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sy'n galluogi darparwyr gofal i asesu eu hunain yn erbyn safonau newydd Sir y Fflint.

✓ Fe wnaethom weithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn rhoi hyfforddiant i weithwyr gofal, cartref a chynorthwyol mewn 12 cartref gofal ar sut i gael sgysiaid creadigol gyda phobl â dementia. Mae 16 darparwr cartref gofal a 9 darparwr gweithgareddau yn defnyddio tudalen 'Dementia Friendly' Facebook.

✓ Datblygodd Sir y Fflint a BIPBC raglen ar y cyd i fonitro ansawdd gofal nyrsio yn Sir y Fflint.

**2** Rhoi mwy o gymorth i unigolion bregus a/neu anabl i fyw'n annibynnol, gan gynnwys y rheini sydd mewn perygl o wynebu unigrwydd, drwy:

- Sefydlu gwaelodlin ar gyfer y pobl gafodd gynnig cyngor a chymorth drwy'r Un Pwynt Mynediad.
- Sicrhau bod gan y gweithlu yr adnoddau i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

### Yr hyn wnaethom ni

✓ Rhoi'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar waith o fewn yr Un Pwynt Mynediad. Rhoddwyd cyngor neu gymorth i 2,302 oedolyn drwy'r gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn.



✓ Fe wnaethom fuddsoddi mewn offer newydd sy'n golygu bod modd i un gofalwr gyflenwi pecynnau gofal, yn hytrach na dau ofalwr fel o'r blaen. Mae hyn yn llai ymwithiol yn y cartref ac er mwyn cefnogi hyn fe wnaethom weithio gyda Therapyddion Galwedigaethol mewn ysbytai i adolygu pecynnau gofal presennol pobl a allai elwa ar y dull newydd hwn. Derbyniodd darparwyr sy'n rhoi gofal i bobl ag anawsterau dysgu hyfforddiant ar dechnoleg "Multi-Me" sy'n helpu pobl drwy'r teledu; defnyddir y dull hwn bellach mewn Ysgol Uwchradd Arbenigol i bobl ifanc ag anghenion dysgu penodol. Defnyddiwyd Arian Gofal Canolradd i gyflwyno'r 'Model Cynnydd' mewn pedwar cartref byw â chymorth ychwanegol ac mae darparwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer da.



**3** Gwella canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal drwy:

- Ddatblygu Strategaeth Rianta Gorfforaethol unedig
- Cefnogi plant mewn lleoliadau sefydlog, lleol
- Gwella sefydlogrwydd lleoliadau ysgol a'r broses drosglwyddo pan fo angen symud plant
- Cryfhau gweithio mewn partneriaeth gydag lechyd i sicrhau bod pobl yn derbyn asesiadau iechyd yn brydlon.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Cymeradwywyd cynllun i symud ymlaen â Strategaeth Rianta Gorfforaethol newydd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd ym mis Medi. Cynhaliwyd adolygiad cenedlaethol o arfer da ym maes Rhianta Corfforaethol ar draws Cymru ac mae ein Strategaeth yn cydymffurfio â hwn. Bydd y strategaeth yn nodi ein hymrwymadau mewn perthynas ag Addysg, lechyd a Lles, Sefydlogrwydd a Diogelwch a Gadael Gofal.

✓ Defnyddiwyd arian Buddsoddi i Arbed er mwyn recriwtio swyddog dros dro i weithio ar draws Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gryfhau trefniadau monitro contractau ar gyfer lleoliadau preswyl cost uchel i bobl ifanc.

! Er bod sefydlogrwydd lleoliadau ysgol yn is na'r targed eleni, rydym wedi gwella canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n symud llai na 3 gwaith o 13.38% i 11.9%. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio er mwyn cynnal sefydlogrwydd lleoliadau lle bo'n bosibl. Bydd pobl ifanc yn cael eu symud oherwydd amgylchiadau personol eithriadol yn unig.

! Cafodd 61.5% o Blant sy'n Derbyn Gofal asesiad iechyd amserol gan BIPBC. Mae hyn wedi lleihau 6.85%. Mae camau adfer a gymerwyd gan BIPBC wedi cynnwys safoni dogfennau a phrosesau ar draws Gogledd Cymru, adolygu amseroedd apwyntiadau clinig sydd ar gael yn Sir y Fflint a chynnal trafodaethau gyda'r nod o gynyddu'r capasiti i gynnal Asesiadau Iechyd.

# Gwasanaethau Integredig Cymunedol, Cymdeithasol ac Iechyd

Cynnydd : **Da**      Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn sicrhau bod gwasanaethau effeithiol i gefnogi gofalwyr ar waith fel rhan o'r gwasanaethau integredig cymdeithasol ac iechyd drwy:

- Ddatblygu a gweithredu'r cynllun gweithredu a fyddai'n deillio o'r adolygiad o strategaeth y gofalwyr.

## Yr hyn wnaethom ni



Fe wnaethom ddechrau newid y ffordd mae'r gwasanaethau anabledd yn gweithio drwy ddod ag elusennau ac asiantaethau gwirfoddol ynghyd o dan un cytundeb lefel gwasanaeth fel cydweithfa. Mae'r Strategaeth Gofalwyr ddiwygiedig yn parhau i gael ei chyflenwi gan Grŵp Strategaeth y Gofalwyr. Mae'r camau gweithredu Craidd a nodwyd ar gyfer 2017/18 yn cynnwys adolygiad o brosesau asesu a chyfeirio ar gyfer Gofalwyr ac adolygiad o'r holl wasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflenwi'r canlyniadau gorau i Ofalwyr.



2

Yn ystod 2016/17 roeddem yn bwriadu dylanwadu ar y defnydd o'r Gronfa Gofal Canolraddol er mwyn cynorthwyo i ryddhau pobl o'r ysbyty yn effeithiol a sicrhau pontio mwy llwyddiannus rhwng y gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol drwy:

- Gytuno ar y blaenoriaethau a'r cynllun gweithredu ar gyfer ariannu yn 2016/17
- Gwella'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol.

## Yr hyn wnaethom ni



Fe wnaeth partneriaid yn Sir y Fflint barhau i weithio er mwyn sicrhau bod y Gronfa Gofal Canolraddol yn cael ei defnyddio er mwyn helpu pobl i aros yn eu cartrefi gan gynnig gwasanaeth integredig sy'n diwallu eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Cynhelir cyfarfodydd adolygu rhanbarthol rheolaidd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru ac mae protocolau yn eu lle i reoli unrhyw lithriad neu danwariant. Roedd cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo yn is yn 2016/17 na'r flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

✓ Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod y gyfradd oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty yn is na chyfradd y llynedd. Mae unrhyw oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn tueddu i fod oherwydd anghenion iechyd meddwl cymhleth. Mae Gofal Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cydweithio i fonitro pob achos o oedi a rhoddir blaenoriaeth i ddatrys achosion o'r fath cyn gynted â phosibl.

3 Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn gweithio drwy'r Fforwm Gwasanaethau Plant a'r grŵp cyfranogi i wella mynediad at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (GIMPG) drwy:

- Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n aros am wasanaethau GIMPG a chyfartaledd yr amser aros.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Mae'r adroddiad diweddaraf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn dangos bod CAMHS Sir y Fflint wedi llwyddo i leihau amseroedd aros ar gyfer Iechyd Meddwl Sylfaenol. Rydym bellach yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru, sef 28 diwrnod. Mae BIPBC yn blaenoriaethu Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn iddynt gael llwybr cyflym at CAMHS ac mae'n darparu pecynnau addas drwy gydweithio â chydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol.

4 Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn datblygu mwy o ymwybyddiaeth o ddementia ar draws y sir drwy:

- Nifer y digwyddiadau a gaiff eu hanelu at godi ymwybyddiaeth o ddementia ar draws y Sir (a'r bobl sy'n cymryd rhan).
- Nifer y trefi sy'n ystyriol o ddementia yn Sir y Fflint.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Mae tair cymuned sy'n Ystyriol o Ddementia yn Sir y Fflint, ac mae pedair cymuned arall yn gwneud cais am y statws hwn. Mae Cymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia wedi cynnal digwyddiadau ar hyd y flwyddyn, gan gynnwys Gwobrau Busnes yn yr Wyddgrug a Bwcle. Bellach mae gennym 38 busnes sy'n Ystyriol o Ddementia, a 10 caffi cof.

✓ Cyflenwyd dau brosiect ar gyfer pontio'r cenedlaethau ac mae gennym 6 ysgol lle mae'r holl ddisgyblion yn Ystyriol o Ddementia. Fe wnaethom hefyd ddatblygu gwasanaeth Cymorth Cyfoedion Achosion Cynnar ar gyfer pobl sy'n byw â dementia.

# Diogelu

Cynnydd : **Da**      Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn cryfhau trefniadau o fewn pob portffolio yn y Cyngor er mwyn sicrhau bod ganddynt gyfrifoldebau clir i fynd i'r afael â diogelu drwy:

- Ddatblygu polisi diogelu corfforaethol sy'n gweithredu fel fframwaith ar gyfer pob gwasanaeth o fewn y Cyngor.
- Datblygu fframwaith perfformiad a chylch adrodd.
- Adolygu polisiau a gweithdrefnau corfforaethol a gwasanaeth i nodi hyd a lled y ddarpariaeth ddiogelu.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Cytunwyd ar bolisi diogelu corfforaethol. Byddwn yn adolygu holl bolisiau a strategaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol o fis Medi 2017 ymlaen er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd ystyriaeth o faterion diogelu.

✓ Mae gan bob portffolio arweinydd enwebedig a sefydlwyd panel diogelu.

2

Sicrhau bod y gweithlu yn derbyn hyfforddiant yn unol â Chodau Ymarfer newydd ar gyfer Diogelu drwy:

- Gynnal dadansoddiad o'r anghenion hyfforddiant ar draws y Cyngor.
- Cyfraddau atgyfeirio gan wasanaethau ac eithrio'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Mae modiwlau e-ddysgu ar Ddiogelu bellach ar gael yn Academi Sir y Fflint. Cyflenwyd gweithdai hanner diwrnod rhyngweithiol yn ystod Mai a Mehefin 2016.

✓ Cafodd tri achos diogelu eu hatgyfeirio o bortffolios y Cyngor ac eithrio'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnwyd i weithwyr sy'n cofnodi atgyfeiriadau nodi'n glir beth yw ffynhonnell yr atgyfeiriad. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn ystod 2017/18.

3

Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod ein cyfraddau ymateb i atgyfeiriadau yn parhau i gyrraedd y targedau statudol drwy gynnal:

- Targedau gweithdrefnau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion.

## Yr hyn wnaethom ni



Mae'r canllawiau newydd ar gyfer diogelu oedolion yn cynnwys argymhelliad y dylid gwneud penderfyniad ar bob mater sy'n destun pryder cyn pen 7 diwrnod. Rydym wedi dechrau mesur yr amserlenni ar gyfer ymholiadau ym mis Hydref, ac yn ystod ail hanner y flwyddyn gwnaeth yr Uned Ddiogelu benderfyniad dechreuol ar 74% o adroddiadau cyn pen 7 diwrnod. Cafodd gweithdrefnau eu hadolygu yn unol â chanllawiau newydd er mwyn gwella perfformiad yn erbyn yr amserlen genedlaethol. Yn erbyn y mesur canlyniad hwn, cafodd risg ei reoli ar gyfer 100% o'r achosion diogelu oedolion a atgyfeiriwyd yn ystod y flwyddyn.



Oherwydd cynnydd yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, effeithiwyd ar y gallu i gynnal cynadleddau amddiffyn plant amserol gan olygu ei bod yn anodd cyrraedd y targed perfformiad. Cynhaliwyd 74% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol o fewn yr amser, ac roedd 98% o gynadleddau adolygu ar amser.

# Economi a Menter



Cynnydd

Da

Canlyniad

Uchel

## Twf ac Adfywio'r Sector Busnes Cynnydd : Da Canlyniad : Uchel

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn hyrwyddo lleoli Strategol / Rhanbarthol yn barod ar gyfer cyflymu twf yn y dyfodol drwy:

- Gyfrannu at ddatblygu a chyflenwi strategaeth twf economaidd trawsffiniol clir i Sir y Fflint.
- Llwyddiant i gael cymeradwyaeth a/neu gyllid ar gyfer rhaglenni a fydd yn cefnogi twf economaidd.

### Yr hyn wnaethom ni



Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan ganolog i ddatblygu Bid Bargen Twf Economaidd ar gyfer Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Mae'r rôl hon wedi cynnwys cynnal trefniadau gwaith trawsffiniol cadarnhaol gyda Chynghrair Mersi/Dyfrdwy. Mae safleoedd datblygu strategol ac anghenion trafniadaeth Sir y Fflint wedi eu cynnwys yng Ngweledigaeth Twf Gogledd Cymru a Chynllun Twf Menter Leol Sir Gaer/Warrington.



Y nod erbyn diwedd y flwyddyn oedd cyfrannu at gyhoeddi Prosiectws Seilwaith rhanbarth Mersi/Dyfrdwy a pharhau i geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru ac ardal Mersi/Dyfrdwy. Cyflawnwyd hyn.

2

Gwneud y mwyaf o werth economaidd prosiectau trawsnewid drwy:

- Fonitro a chynorthwyo'r gwaith o weithredu'r prosiectau trawsnewid.
- Cynorthwyo i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi.
- Troi ymholiadau busnes yn fuddsoddiad yn Sir y Fflint.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Eleni yw blwyddyn olaf cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac mae'r holl brosiectau bellach wedi eu cwblhau. Datblygwyd prosiectau 'Ar y gweill' i ddefnyddio unrhyw danwariant y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu a chafwyd £435,000 o arian ychwanegol o ganlyniad i hyn. Mae trefniadau gweithio agos yn eu lle ar gyfer contractwr y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP), Wates Living Space, a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf er mwyn sicrhau bod pobl ddi-waith yn cael cynnig cymorth cyn-cyflogaeth a chyfleoedd profiad gwaith.

✓ Trefnwyd deg digwyddiad cadwyn gyflenwi yn ystod y flwyddyn mewn partneriaeth gyda Busnes Cymru, gwasanaethau caffael a Chynghrair Mersi/Dyfrdwy.

✓ Yn ystod 2016/17 derbyniwyd 181 ymholiad busnes a chafodd 158 o'r rhain eu troi yn fuddsoddiad, gan arwain at gyfradd drosi o 87.2%.



**3** Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn hwyluso creu swyddi drwy:

- Greu swyddi yn Sir y Fflint, a;
- Chreu swyddi yn Sir y Fflint drwy ein rhaglenni cyfalaf mawr (WHQS a SHARP).

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ymateb i 181 ymholiad busnes newydd gan arwain at gyfradd gyfartalog o drosi ymholiad i fuddsoddiad o 87.2% a chrëwyd 1,480 o swyddi newydd. O'r 1,480 swydd newydd, mae 572 ym Mharth Menter Glannau Dyfrdwy. Mae 7 menter gymdeithasol newydd wedi dechrau yn Sir y Fflint gan arwain at 12 swydd newydd a rhoddwyd cymorth i 9 menter gymdeithasol arall ddatblygu. Rydym wedi cyflenwi 34 digwyddiad busnes ac wedi ymgysylltu â 2,718 o gynrychiolwyr busnes ar draws y rhanbarth.

✓ Mae'r sector twristiaeth ar draws Sir y Fflint ar hyn o bryd yn cefnogi 3,163 o swyddi uniongyrchol ac yn cynhyrchu £238m y flwyddyn o'r 3.5m o ymwelwyr sy'n aros yma a 2.7m o ymwelwyr dydd.

✓ Parhaodd yr holl raglenni yn 2016/17 gan fod y cynllun Safon Ansawdd Tai Cymru wedi parhau. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, llwyddwyd i gadw'r 42 swydd lleol a grewyd. Mae nifer y swyddi a grewyd wedi parhau i wella wrth i fwy o gontractau gael eu caffael. Bydd cynnydd yn parhau yn y dyfodol drwy Academi Prentisiaid newydd Sir y Fflint.

✓ Crëwyd 393 o swyddi yn ystod 2016/17. Dechreuodd Cam 1 o'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) ym mis Mai 2016 ar safle hen ysgol Custom House

Lane yng Nghei Connah a chrëwyd 116 o swyddi. Dechreuodd y datblygiad nesaf yn safle The Walks yn y Fflint ym mis Gorffennaf 2016 a chrëwyd 257 o swyddi. Mae'r datblygiad diweddaraf yn safle Modurdy Redhall yng Nghei Connah yn ystod mis Mawrth 2017 wedi creu 20 o swyddi.



## 4

Cryfhau buddion economaidd canol trefi a'r economi ymwelwyr drwy:

- Gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rheoli cyfleusterau ymwelwyr mewn ardaloedd trefol allweddol ac ar hyd glannau Dyfrdwy.
- Hwyluso buddsoddiad y sector preifat yng nghanol trefi.
- Ehangu rhaglen Llysgenhadon Gogledd-ddwyrain Cymru yn Sir y Fflint.

## Yr hyn wnaethom ni



Mae cyflenwi Cronfa Cymunedau'r Arfordir wedi gwella mynediad at arfordir Glannau Dyfrdwy ac ymwybyddiaeth o'r ardal drwy osod seilwaith ymwelwyr ar raddfa fach a phwyntiau dehongli mewn safleoedd allweddol. Mae'r gwasanaeth twristiaeth wedi datblygu'r rhaglen Llysgenhadon ac mae 30 o gyfranogwyr yn Sir y Fflint yn hyrwyddo'r ardal fel rhan o frand Gogledd-ddwyrain Cymru ac yn gwella'r gwaith o gynllunio a rheoli cyrchfannau ar gyfer ymwelwyr.



Lefel yr unedau gwag ar draws trefi Sir y Fflint yw 10% gan ddangos twf graddol yn nifer yr unedau gwag sy'n cyd-fynd â'r duedd genedlaethol. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau ar y broses o ddatblygu cynllun newydd i gynorthwyo canol trefi yn y dyfodol a fydd yn ymestyn i'r flwyddyn nesaf. Mae cyflenwi Cronfa Cymunedau'r Arfordir wedi gwella mynediad ac ymwybyddiaeth o arfordir glannau Dyfrdwy gan gynnwys gosod cyfleusterau gwybodaeth a dehongli i ymwelwyr.



Mae 3 phrosiect wedi derbyn cymorth datblygu gan y Cyngor, fodd bynnag, nid ydynt wedi symud ymlaen i'r cam datblygu.



# Sgiliau a Dysgu



Cynnydd  
Da

Canlyniad  
Uchel

## Prentisiaethau a Hyfforddiant

Cynnydd : **Da**      Canlyniad : **Uchel**

1. Gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i sicrhau'r nifer mwyaf o brentisiaethau, hyfforddeiaethau a chyfleoedd profiad gwaith.
2. Cynyddu nifer y cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau drwy Academi Prentisiaethau Sir y Fflint, Futureworks a rhaglenni cyfalaf mawr.
3. Cefnogi'r Rhaglen Entrepreneur Ifanc ar y cyd â Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint (BEN).
4. Datblygu ymhellach y rhaglen waith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o ddatgysylltu.

### Yr hyn wnaethom ni

✓ Mae gwaith wedi parhau i adeiladu ar gynnydd y flwyddyn flaenorol. Sefydlwyd Academi Prentisiaethau Sir y Fflint ac mae gwaith partneriaeth gyda Future Works ar y gweill. Mae cyfleoedd i gynyddu nifer y prentisiaethau, hyfforddeiaethau a phrofiad gwaith yn cael eu datblygu drwy amryw o fforymau, digwyddiadau a gwaith gyda phartneriaid. Trefnwyd seminar penodol i roi sylw i'r flaenoriaeth hon yn ystod Wythnos Fusnes Sir y Fflint (Medi 2016). Cyhoeddir gwybodaeth sy'n hyrwyddo cyfleoedd lleol a rhanbarthol i bobl ifanc mewn newyddlen Gyrfa Cymru a gaiff ei dosbarthu'n rheolaidd i ysgolion Sir y Fflint.

✓ Mae Wates Residential, partneriaid datblygu Sir y Fflint ar gyfer y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP), wedi creu 12 prentisiaeth yn ystod 2016/17, cafodd 4 o'r prentisiaethau hyn eu creu drwy Futureworks Sir y Fflint, y cynllun prentisiaethau a rennir.

✓ Fel rhan o'r amodau sydd ynghlwm â'r contract i gyflenwi SHARP mae'r partner datblygu yn cyflenwi buddion cymunedol sy'n cynnwys



darparu hyfforddeiaethau ar safleoedd adeiladu. Gan weithio'n agos gyda thîm Cymunedau yn Gyntaf Sir y Fflint, mae'r datblygwyr, Wates Residential, wedi darparu 24 o gyfanswm o 32 hyfforddeiaeth er mwyn helpu pobl i gael swyddi.

✓ Yn ystod 2016/17 canolbwyntiodd y rhaglen ar gyflenwi sesiynau cynllunio busnes, gan sicrhau bod amcanion a nodau aelodau'r Clwb Menter yn cael eu diwallu gyda chefnogaeth y Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes (BEN).

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Parhaodd y gwaith yn ystod 2016/17 yn unol â gofynion Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Trefnwyd cyfarfodydd rheolaidd gydag ysgolion a darparwyr addysg eraill, ac roedd amryw o asiantaethau cymorth priodol yn bresennol. Defnyddiwyd yr Offeryn Proffilio Dysgwyr i adnabod pobl ifanc oedd mewn perygl. Ym mis Ebrill 2016, dechreuodd TRAC dargedu pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o ddatgysylltu. Mae TRAC yn brosiect partneriaeth 2 flynedd rhwng Cyngor Sir Wrecsam, Coleg Cambria a Gyrfa Cymru sy'n darparu adnoddau er mwyn cyflenwi pob math o gymorth effeithiol i dargedu pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET). Mae 1.7% o bobl ifanc dros 16 oed yn y categori hwn, sy'n cynnal record da y Cyngor.

✓ Ers mis Medi 2016, cynigiwyd 87 lleoliad i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn Sir y Fflint ar y cyrsiau galwedigaethol a ganlyn; Gwallt a Harddwch, Cerbydau Modur, Gofalu am Anifeiliaid Bach, ac Adeiladu. Ymunodd 43 ar gyrsiau paratoadol y lluoedd arfog, ac roedd 14 yn paratoi ar gyfer ail flwyddyn y cwrs. Mae prosiect TRAC yn parhau ac mae wedi meithrin cysylltiadau â holl ysgolion uwchradd Sir y Fflint ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Cyfeiriwyd cyfanswm o 163 disgybl at y prosiect hyd yma i gael ymyrraeth ychwanegol.

# Addysg Fodern sy'n Perfformio ar Lefel Uchel

Cynnydd : **Da**      Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn gwneud gwahaniaeth drwy ein Strategaeth Gwella a Moderneiddio Addysg ac leuenctid gan godi safonau drwy:

Weithio'n effeithiol gyda'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgolion (GwE) er mwyn:

- Datblygu capasiti arwain mewn ysgolion drwy foderneiddio ysgolion a gweithio'n rhanbarthol;
- Rhannu'r arferion addysgu gorau ac adnoddau gyda'r ysgolion sydd arnynt eu hangen fwyaf;
- Canfod a thargedu cymorth ar gyfer yr ysgolion sydd arnynt ei angen fwyaf;
- Datblygu capasiti ysgolion i ymateb i fentrau cenedlaethol a diwygio'r cwricwlwm; a
- Gwella sgiliau mewn llythrennedd digidol, llythrennedd a rhifedd.

## Yr hyn wnaethom ni




Fe wnaeth Cyngor Sir y Fflint a'n Partneriaid Rhanbarthol Gwella Ysgolion barhau i fonitro ysgolion a thargedu cymorth priodol yn ystod 2016/17. Targedwyd ysgolion ar sail canlyniadau categoraidd cenedlaethol a chanlyniadau arolygon Estyn.



Os nad oedd ysgolion wedi gwneud cynnydd priodol, er iddynt dderbyn lefelau uchel o gymorth, cymerodd y Cyngor gamau o dan ganllawiau deddfwriaethol Ysgolion sy'n Achos Pryder gan roi rhybuddion iddynt.

Mae ysgolion yn cymryd mwy o ran mewn digwyddiadau hyfforddiant lleol a rhanbarthol sy'n golygu bod modd rhannu arfer gorau, gwella



capasiti arwain ar draws pob maes cwricwlwm a blaenoriaethau cenedlaethol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn benodol. Drwy Rhaglen Cefnogaeth a Her GwE, caiff ysgolion eu hannog i weithio mewn rhwydweithiau a chlystyrau i ledaenu arfer gorau.

2

Lleihau effaith tldi ac anfantais drwy'r flaenoriaeth genedlaethol i wella ysgolion, Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (2015-17) a Strategaeth Gwasanaethau leuenctid Integredig Sir y Fflint (2014-18), "Cyflawni gyda'n Gilydd"

## Yr hyn wnaethom ni



Yn ystod 2016/17 sicrhawyd £1.6m o arian Llywodraeth Cymru er mwyn ailgomisiynu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf lawn. Mae'r Cyngor wedi dilyn cynigion y canllawiau newydd i ddatgomisiynu rhannau o'r rhaglen nad oedd bellach yn hyfyw ac wedi gweithio gyda'r sector gwirfoddol. Mae'r rhaglen lawn bellach yn cael ei chomisiynu ar gyfer ei chyflenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen. Mae hyn ar y trywydd iawn ac fe'i cyflenwir yn llawn ac o fewn y gyllideb ariannol. Mae'r rhaglen wedi sicrhau bod y ddarpariaeth newydd yn darparu adnoddau ar gyfer yr Hwb Ymyrraeth Gynnar, sef dull amlasiantaethol blaengar o wella a chefnogi cyfleoedd bywyd plant ar gam cynnar.

## 3

Gwella canlyniadau Plant sy'n Derbyng Gofal a phobl ifanc sy'n gadael y System Cyfiawnder Ieuenctid

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Rhoddwyd blaenoriaeth i Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth mewn cynllun gweithredu newydd. Mae adolygiad mewnol o weithdrefnau cofnodi a monitro wedi gwreiddio cofnodi cadarn yn y system casglu data. Cafodd y gwaith cyflenwi ei wella drwy benodi Cydlynedd Addysg Rhagweithiol a gwell partneriaethau gyda Symud Ymlaen, mudiad trydydd sector.

✓ Mae 57% o bobl ifanc oedran ysgol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint yn cael eu goruchwyllo mewn lleoliadau Cyflogaeth, Hyfforddiant neu Addysg llawn amser (cyfartaledd Cymru yw 46%). Mae 71% yn cael cynnig y ddarpariaeth hon. Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint yn y 4ydd safle yng Nghymru yn y cyswllt hwn (allan o 15). Cymharer hyn â 2 flynedd yn ôl pan oedd Sir y Fflint yn y 13eg safle. Mae hyn o ganlyniad i'r gwaith partneriaeth parhaus gyda'n cydweithwyr mewn ysgolion a cholegau i roi cymorth i bobl ifanc i

bobl ifanc barhau yn eu lleoliadau addysgol er gwaethaf ymddygiad heriol neu anawsterau eraill.



Perfformiodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint yn dda yn y data diweddaraf i gael eu cyhoeddi gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid mewn perthynas â phobl ifanc dros 16 oed mewn addysg a hyfforddiant: roedd yn y safle 1af o blith 15 gwasanaeth arall ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae'r nifer sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth llawn amser yn parhau yn isel ac mae angen mwy o gydweithio rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Addysg. Mae pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa yn achos pryder penodol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r bobl ifanc hyn cyn iddynt gael eu rhyddhau er mwyn sicrhau bod darpariaeth addysgol ar eu cyfer ar ôl eu rhyddhau, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol (Agored Cymru) a sgiliau i wella eu cyflogadwyedd yn y dyfodol.

## 4

Continuing to implement Band A of the 21st Century Schools Programme

## Yr hyn wnaethom ni

✓ The construction projects at Coleg Cambria (Deeside 6th and at Holywell Learning Campus) were completed in August 2016. A revised Strategic Outline Programme for the remainder of the agreed funding envelope for Band A has been presented and approved in principle by Welsh Government (WG). Proposed Capital projects at Connah's Quay High School and Penyffordd were approved in October 2016 and now form the remainder of the Band A programme. Remaining projects within Band A are being progressed in line with programme timelines. A combined Strategic Outline Case and Outline Business Case has been submitted and approved in principle by WG for the proposed project at Penyffordd. Wynne Construction have been engaged through the North Wales Construction Framework.

5

Datblygu a gweithredu cynllun ar gyfer y cam nesaf o Foderneiddio Ysgolion, drwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B).

## Yr hyn wnaethom ni



Rhaglen hirdymor yw hon sy'n ymestyn i 2024. Gall prosiectau newid ysgolion gymryd 3-5 mlynedd o'u dechreuad i'w cwblhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod wedi ymrwymo i raglen 21ain Ganrif Band B yn dilyn Band A, a disgwylir y bydd ar waith rhwng 2019 a 2024. Mae Awdurdodau Lleol Cymru yn aros am gadarnhad pellach a manylion gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith paratoadol yn mynd rhagddo ar gyfer opsiynau Band B.

.....

6

Sicrhau strategaeth gynaliadwy ar gyfer trwsio a chynnal a chadw adeiladau ysgolion.

## Yr hyn wnaethom ni



Mae gwaith Trwsio a Chynnal sy'n cronni yn rhaglen hirdymor sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Yn ogystal, mae achosion busnes ar gyfer gwelliannau cyfalaf a phrosiectau Trwsio a Chynnal mewn ysgolion yn parhau i gael eu cyflwyno ar gyfer eu hystyried. Bydd y dyraniad Trwsio a Chynnal blynyddol ynghyd â pharhad rhaglen gyfalaf y Cyngor drwy ddwy ffrwd ariannu yn cynnal strategaeth gynaliadwy ar gyfer gwaith trwsio a chynnal (h.y. bydd yn lleihau'r gwaith cynnal sy'n cronni); ac yn darparu ystâd ysgolion effeithlon. Mae'r arian yn gyfyngedig ac mae blaenoriaethu yn her barhaus.

.....

7

Sicrhau set gynaliadwy o bolisiau trafndiaeth ac arferion cyflenwi effeithlon.

## Yr hyn wnaethom ni



Cyflogwyd ymgynghorwyr arbenigol gan y Cyngor i gynnig opsiynau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ym maes trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol. Bu'r Cabinet yn ystyried argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Trafndiaeth Ysgol. Penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen ar hyn o bryd.

## 8

Datblygu dull gweithredu lleol ac effeithiol mewn perthynas â diwygiadau cynhwysiant cenedlaethol.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Mae rhaglen ddiwygio Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau i ddatblygu. Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion yw unig faes y diwygiadau a gadarnhawyd ac y dyrannwyd arian ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhaglen hyfforddiant. Nid ydym yn rhagweld y bydd diwygiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu'n llawn cyn 2018.

✓ Cwblhawyd y prosiectau a gomisiynwyd gan ddefnyddio Cronfa Arloesi ADY Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2017. Dyrannwyd arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau eraill yn y flwyddyn ariannol 2017/18. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith blaenorol, gan gynnwys canolbwyntio ar ddatblygu pontio effeithiol gan ddefnyddio dulliau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion a datblygu Llawlyfr Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol a rhwydwaith cymorth.

✓ Datblygodd Gwasanaeth Seicoleg Addysg Sir y Fflint raglen hyfforddiant ac fe'i rhoddwyd ar waith er mwyn sicrhau bod pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol erbyn Gorffennaf 2016. Cam nesaf y rhaglen fydd canfod ysgolion Disglair sydd yn cofleidio a gwreiddio Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion yn llawn yn eu harferion.

✓ Mae Sir y Fflint yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru a'r rhanbarth o ran canran dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni gwell deilliannau ym Mathemateg. Rydym yn y 5ed safle yng Nghymru, sef un lle yn uwch na'r meincnod o 6ed safle. Yng Nghyfnod Allweddol 2 rydym wedi gwella 2.2% i gyrraedd y lefel uchaf yn rhanbarth Gogledd Cymru ac rydym wedi codi o'r 11eg safle i'r 6ed safle o blith awdurdodau lleol Cymru.

! Mae perfformiad dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ym Mathemateg wedi aros yr un fath yn 2016/17 yn erbyn gwir berfformiad 2015/16.

# Cymunedau Diogel



Cynnydd  
Boddhaol

Canlyniad  
Canolig

## Diogelwch Cymunedol

Cynnydd : **Boddhaol** Canlyniad : **Canolig**

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn datblygu cynllun i gyflenwi prif ganlyniadau Cynllun Diogelwch Cymunedol Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru (BCMDGC) drwy:

- Adolygu perfformiad fframwaith cyflenwi BCMDGC.
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fabwysiadu prif flaenoriaethau'r Cynllun Diogelwch Cymunedol rhanbarthol.

### Yr hyn wnaethom ni



Cymeradwywyd Cynllun Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru ar gyfer 2016/17 a gwreiddiwyd blaenoriaethau rhanbarthol yng nghynllun cyflenwi lleol 'Mae Pobl yn Ddiogel' o dan arweiniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

2

Cyfrannu at gyflenwi Blaenoriaethau Cynllun Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru drwy:

- Leihau effaith cam-drin domestig ar ddiodeddfwyr sydd mewn perygl uchel o ddiodeff ymosodiadau pellach.
- Rheoli effeithiau camddefnyddio sylweddau drwy wella'r ddarpariaeth gwasanaeth.
- Rheoli effeithiau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.



White Ribbon Campaign 2014

### Yr hyn wnaethom ni



Nod y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (GAAR) yw lleihau erledigaeth yn erbyn yr unigolion rheini sydd mewn perygl difrifol o gael niwed. Yn ystod 2016/17 roedd llai o achosion o erledigaeth mynych. Cyfeiriwyd 14% o ddiodeffwyr oedd mewn perygl uchel o ddiodeff ymosodiad arall at GAAR Sir y Fflint, sef gostyngiad o 6% ers y flwyddyn flaenorol a gostyngiad o 50% yn erbyn y targed.



Mae nifer y triniaethau a gwblhawyd a ddarparwyd i'r rheini sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau wedi amrywio yn ystod y flwyddyn. Y cyfartaledd ar gyfer 2016/17 yw 77.69% sydd ychydig yn is na chyfradd 2015/16, sef 78.91%.

3

Lleihau ofn trosedd drwy wneud y defnydd gorau o'r technolegau diweddaraf gan gynnwys teledu cylch cyfyng (TCC) drwy:

- Gytuno ar gynllun i'r dyfodol ar gyfer cydnerthedd yr ystafell reoli (lleoliad a diweddarau'r dechnoleg).
- Cytuno ar gynllun busnes ac ariannu newydd ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol.
- Cynnal gwasanaeth cyson yn ystod yr adolygiad o'r gwasanaeth.
- Cynnal cysondeb o ran ariannu partneriaeth y Cyngor, a Chynghorau Tref a Chymuned yn ystod yr adolygiad.



Mae'r astudiaeth ddichonoldeb wedi ei chwblhau a derbyniwyd adroddiad yr ymgynghorydd er mwyn llywio'r penderfyniad.



Mae'r gwaith ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned a budd-ddeiliaid eraill bellach wedi ei gwblhau.



Gohiriwyd y gwaith o adleoli ystafell reoli TCC. Nid yw cynnydd i Gam Dau wedi ei gadarnhau, fodd bynnag roedd y briff ymgynghori yn cynnwys paratoi manylebau technegol manwl, cynigion, lluniadau a dogfennau tendro ar gyfer uwchraddio cyfarpar yr ystafell reoli TCC o dechnoleg analog i'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf a chaffael camerâu y gellir eu hailosod (lle bo'n bosibl) i gyd-fynd â'r cynllun camerâu TCC sefydlog.



# Tlodi Cynnydd | Canlyniad

Da Uchel

## Gwneud y mwyaf o Incwm Cynnydd : Da Canlyniad : Uchel

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn darparu cyngor a gwasanaethau cymorth er mwyn helpu pobl i amddiffyn eu hincwm drwy:

- Gynorthwyo trigolion Sir y Fflint i hawlio Nawdd Cymdeithasol a Chredydau Treth ychwanegol y mae ganddynt hawl iddynt.
- Cynorthwyo pobl â'r newidiadau o ran Diwygio Lles drwy weithredu Polisi Taliadau Tai drwy Ddisgresiwn y Cyngor yn effeithiol.
- Cefnogi trigolion Sir y Fflint i reoli eu hymrwymadau ariannol yn well.
- Monitro pa mor gyflym y caiff hawliadau Budd-dal Tai eu prosesu: i) hawliadau newydd ii) newid mewn amgylchiadau.

### Yr hyn wnaethom ni



Yn ystod y cyfnod 2016/2017, cafodd incwm budd-dâl ychwanegol o £1,579,380 ei gynhyrchu yn sgil ymyriadau ym maes hawliau lles gyda chartrefi Sir y Fflint.



Yn ystod y flwyddyn cafodd y galw gan drigolion am fynediad at ddarparwyr cyngor a cymorth ei reoli gan Y Pyrrh Cyfeirio Cyngor a Chymorth Tai. Wrth i wasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno yn Sir y Fflint o ddechrau 2017/18 rydym yn canolbwyntio'r cymorth ar drigolion a fydd yn hawlio Credyd Cynhwysol.



Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cyngor a gwasanaethau cymorth er mwyn helpu trigolion i wneud y mwyaf o'u hincwm drwy hawlio'r budd-daliadau nawdd cymdeithasol cywir a rheoli eu dyledion. Yn ystod 2016/17 rhoddwyd cymorth i gyfanswm o 21 o drigolion i reoli eu hymrwymadau ariannol yn well, gan fod capasiti i roi cyngor yn fwy cyfyngedig.



Effeithiwyd ar berfformiad yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn oherwydd recriwtio a chadw staff. Er na lwyddwyd i gyrraedd targed perfformiad y Cyngor, fe wnaethom gyrraedd targed yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef 24 diwrnod.

**2** Helpu pobl i ddod yn agosach at waith a / neu fod yn barod i weithio drwy wahanol raglenni a ariennir gan y Llywodraeth ac Ewrop:

- Nifer y bobl leol sydd yn dod yn agosach at waith neu sy'n barod i weithio ar ôl elwa ar raglenni a ariennir gan y Llywodraeth neu Ewrop.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Mae'r Cyngor a darparwyr y trydydd sector wedi cyflenwi pecynnau cymorth i gartrefi i'w galluogi i ddod yn agosach at waith drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn ystod 2016/17 cymerodd 439 o bobl ran mewn cyfleoedd addysg neu ddysgu a chymerodd 610 o bobl ran mewn cyfleoedd gwaith neu wirfoddoli.

✓ Mae gan Cymunedau yn Gyntaf sawl menter i sicrhau bod pobl yn cael gwaith, o glybiau swyddi wythnosol i ffeiriau swyddi blynyddol. Hyd yma rydym wedi rhoi cymorth i 99 o bobl gael gwaith llawn amser a rhan amser.

✓ Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi gweithio gyda chleientiaid i'w galluogi i fod mor barod â phosibl i gael gwaith, gan roi cymorth iddynt fynychu sawl cwrs gan gynnwys lechyd a Diogelwch. Enillodd 247 o gleientiaid gymwysterau yn 2016/17.

**3** Cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni i gartrefi yn Sir y Fflint drwy:

- Leihau bil tanwydd blynyddol cyffredinol trigolion.
- Cynyddu nifer y cartrefi sy'n derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni.
- Llunio a lansio fframwaith cyflenwyr a deunyddiau effeithlonrwydd ynni cenedlaethol.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Sicrhaodd y Cyngor £35k o arian Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Aseidiadau Tai Cyfan. Defnyddiwyd yr arian i ddarparu inswleiddiad waliau solet, system wresogi effeithlon, a gwelliannau effeithlonrwydd ynni eraill.

✓ Mae'r prosiectau Mewnlenwi Nwy yn parhau ar y trywydd cywir, ac rydym yn ystyried cyfleoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ynghyd â Gwaith Cyfalaf. Mae'r prosiect pilot yn defnyddio pypiau gwres o'r awyr, gosodiadau technoleg solar a storio batris bellach wedi ei gwblhau.

✓ Mae'r prosiectau Gwres Fforddiadwy a Tai Iach Pobl Iach yn parhau i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Eleni rydym wedi cwblhau'r gwaith o osod 1,247 mesur mewn 877 eiddo, gan arbed £288k y flwyddyn i denantiaid yn ystod oes y mesurau, ac arbediad carbon gydol oes o 33,000 tonnell.

✓ Rydym wedi dyrannu'r holl arian grant, £325k, a dderbyniwyd gan raglen Cartrefi Cynnes ac Iach 'National Energy Action' (NEA). Mae fframwaith ôl-osod ynni domestig Cymru bellach yn fyw ac fe ddylai arwain at fwy o arbedion.

# Yr Amgylchedd Cynnydd | Canlyniad Da Uchel

## Seilwaith a Gwasanaethau Trafnidiaeth

Cynnydd : **Da**      Canlyniad : **Canolig**

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn defnyddio'r arian grant sydd ar gael i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor i gael mynediad at waith, iechyd, hamdden ac addysg drwy:

- Gyflwyno ceisiadau ariannu llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ariannu trafndiaeth leol.
- Cyflenwi cynlluniau a ariennir drwy'r Gronfa Drafndiaeth Leol - seilwaith yn llwyddiannus.
- Paratoi'r map llwybrau presennol a'r map rhwydwaith integredig ar gyfer "Teithio Llesol"
- Sicrhau arian drwy'r Gronfa Datblygu Gwledig a Chymunedol - trafndiaeth gymunedol.

### Yr hyn wnaethom ni



Yn ystod 2016/17 derbyniwyd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Grantiau Diogelwch y Ffyrdd. Mae'r rheini a gwblhawyd yn cynnwys yr A5026, Lloc – Gwella Cyffordd, A5104 Penymynydd i Neuadd Warren a, Ffordd Lerpwl /Ffordd Alltami.



Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gyflenwi'r system fapio ddiwygiedig ar gyfer nodi cynigion Teithio Llesol gan bob Awdurdod Lleol yn ystod 2016/17 felly cytunwyd i ddefnyddio ein system fapio bresennol i ddatblygu'r cynigion er mwyn cyflawni'r amserlen a gytunwyd. Cyflwynwyd cynigion Teithio Llesol yn Fforwm y Cyngorau Tref a Chymuned ym mis Mehefin, a dilynwyd hyn gan gyfnod ymgynghori 12 wythnos statudol ym mis Gorffennaf. Cafodd digwyddiadau ymgysylltu anffurfiol eu rheoli gyda Fforwm Anabledd Sir y Fflint, Ysgolion a'r Fforwm Mynediad Lleol.



Trafodwyd sawl cynllun trafndiaeth gymunedol mewn gweithgoreu a digwyddiadau galw heibio yn ystod Mai a Mehefin. Trwy weithio'n agos gyda chymunedau datblygwyd cynlluniau lleol, arloesol. Sefydlwyd un Hwb Trafnidiaeth Gymunedol a datblygwyd 5 cynllun arall drwy weithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys y Cyngorau Cymuned, a disgwylir i'r rhain ddechrau yn 2017/18.



2

Blaenoriaethu seilwaith ffyrdd y Cyngor ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a gweithredu rhaglenni gwaith o fewn yr arian sydd ar gael er mwyn gwella cydnheredd, effeithlonrwydd a dibynadwyedd y rhwydwaith trafndiaeth drwy:

- Fonitro cyflwr seilwaith y priffyrdd
- Cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod y gwaith ailsefydlu yn bodloni'r safonau gofynnol a chodi safonau gwaith a wneir ar rwydwaith Sir y Fflint.

## Yr hyn wnaethom ni

- ✓ Cwblhawyd Rhan 1 o'r rhaglen waith a drefnwyd rhwng Ebrill a Hydref 2016 gan gynnwys gorchuddio ac ail-wynebu'r cefnffyrdd. Cwblhawyd y gwaith o drwsio darnau o'r ffordd yn ystod y flwyddyn hefyd.
- ✓ Perfformiad ar gyfer canran yr archwiliadau gwaith stryd a gwblhawyd i sicrhau bod y gwaith ffordd yn cwrdd â'r safonau gofynnol oedd 15% yn 2016/17 sydd yn uwch na'r targed, sef 12.5%. Mae'r archwiliadau hyn yn cyflawni tri amcan (1) sicrhau bod safonau yn aros ar lefel dderbyniol (2) lleihau'r angen i ailadrodd y gwaith ffordd a (3) lleihau'r angen i ailymweld â safleoedd.

### 3

Defnyddio arian sydd ar gael i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor i wella diogelwch y ffyrdd ar rwydwaith priffyrdd y Sir drwy:

- Gyflenwi Cynlluniau Grant Diogelwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â thueddiadau gwrthdrawiadau a chrynhoad ar y rwydwaith ffyrdd drwy Raglen Cymorth Grant Llywodraeth Cymru.
- Cyflenwi cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a nodwyd fel rhan o'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.
- Cyflenwi mentrau diogelwch ffyrdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn lleihau'r perygl o wrthdrawiadau ymhlith grwpiau risg uchel (gyrwy'r hŷn, gyrwy'r ifanc sydd newydd gymhwyso a gyrwy'r beiciau modur).

✓ Darparwyd Arolygon Sganio o amodau'r ffyrdd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2016 ar gyfer ffyrdd dosbarth A, B, ac C yr ystyrir eu bod mewn cyflwr gwael. Mae'r canlyniadau yn dangos gwelliant o 4.02% yn 2015/16 i 3.35% yn ystod 2016/17.

✓ Cwblhawyd 34 menter diogelwch ffyrdd a anelwyd at yrwy'r hŷn risg uchel yn ystod y flwyddyn, sydd yn fwy na'r targed o 27. Roedd cynnydd yn ystod hanner olaf y flwyddyn oherwydd newid mewn dulliau hysbysebu lleol.

! Mae'r cyfanswm blynyddol o 29 menter diogelwch ffyrdd sydd wedi'u hanelu at yrwy'r ifanc sydd newydd gymhwyso yn dangos cynnydd yn ystod hanner olaf y flwyddyn oherwydd camau a gymerwyd yn dilyn cyngor gan y Grŵp Llywio Pobl Ifanc. Fodd bynnag, mae'r ffigur terfynol yn is na'r

targed a ragwelwyd, sef 44. Mae llai o bobl wedi bod yn cymryd rhan yn y cwrs Pass Plus Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Grŵp Llywio Pobl Ifanc yn parhau i ystyried ymgyrchoedd hyrwyddo eraill gyda Sir y Fflint er mwyn cefnogi cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan.

✓ Sicrhawyd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer Hyfforddiant Beic Modur Beicio Diogel i drigolion Sir y Fflint. Mae'r gweithdy Beicio Diogel yn edrych ar y prif beryglon y gall beiciwr modur ddod ar eu traws drwy gynnig cyflwyniadau theori ac arsylwi ar reidwyr. Yn ogystal â gweithdy Beicio Diogel, roedd cwrs Cymorth Cyntaf i Reidwyr, Beiciwr Cyntaf i gyrraedd Digwyddiad (First Bike On Scene) hefyd ar gael i drigolion Sir y Fflint. Cyflwynwyd 65 cwrs yn ystod y flwyddyn ac roedd trigolion o'r tu allan i'r ardal yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant o fewn Gogledd Cymru.

4

Gweithio'n agos gyda chymunedau i ddatblygu, arloesi a chynnal cynlluniau trafndiaeth gymunedol drwy:

- Weithio gyda chymunedau sydd â diddordeb i ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Gymunedol
- Datblygu cynlluniau trafndiaeth gymunedol i gyd-fynd â'r rhwydwaith craidd o wasanaethau bysiau
- Datblygu "hybiau" trafndiaeth gymunedol gyda'r arian sydd ar gael.

## Yr hyn wnaethom ni



Sefydlwyd gweithgorau yn yr 21 cymuned a wnaeth gais i ddatblygu cynlluniau trafndiaeth gynaliadwy gymunedol ac arloesol. Cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp yn ystod Awst a Medi 2016. Pwrpas y gweithgorau oedd trefnu digwyddiadau galw heibio cyhoeddus er mwyn canfod beth oedd y galw ym mhob ardal. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau galw heibio ar draws y Sir gyda'r gymuned ehangach a budd-ddeiliaid i esbonio sut gallai pobl gymryd rhan yn y prosiect.



Un Hwb Trafndiaeth Gymunedol yn unig a gyflwynwyd yn ystod 2016/17 yn ardal Higher Kinnerton. Rydym yn parhau i gyfathrebu gyda'r gymuned er mwyn sicrhau bod y cynllun yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy. Cafodd gwaith ei wneud yn y cymunedau; aeth swyddogion i gyfarfodydd y Cynghorau Cymuned, a threfnwyd sesiynau galw heibio er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau trafndiaeth gymunedol. Nodwyd sawl cynllun trafndiaeth gymunedol posibl ac mae sawl cynllun ar fin dechrau yn 2017/18. Trwy hyrwyddo'r cynlluniau a gweithio'n agos gyda'r cymunedau, llwyddwyd i nodi a datblygu cynlluniau arloesol.

# Datblygu Cynaliadwy a Rheolaeth Amgylcheddol

Cynnydd : **Da**      Canlyniad : **Uchel**



## 1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn sefydlu gweithgor yr amgylchedd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn dull integredig wrth gyflenwi gwasanaeth sy'n bodloni nodau ac amcanion y Grant Amgylchedd Sengl drwy:

- Y cais am grant yn cael ei gymeradwyo.
- Sefydlu Grŵp Amgylchedd Sengl.
- Monitro cynnydd a hawlio'r arian grant cyfatebol.

## Yr hyn wnaethom ni



Sefydlwyd y Gweithgor Amgylchedd Sengl ym mis Mehefin ac mae wedi cyfarfod ddwywaith ers hynny.



Mae'r Grŵp wedi llwyddo i gydlynu camau gweithredu'r ddau bortffolio i fodloni amcanion y cais am y Grant Amgylchedd Sengl. Mae'r Gweithgor Amgylchedd Sengl yn cadw llygad ar y sefyllfa ddiweddaraf ar lefel Grant Amgylchedd Sengl 2017/18.

## 2

Cytuno ar weledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol, a'r opsiynau i ganiatáu twf drwy:

- Gynnal asesiad ynni adnewyddadwy ar gyfer y CDLI mewn partneriaeth gyda Chyngor Wrecsam a fydd yn sail i'r cynllun cyn-adneuo a'r cynllun adneuo diweddarach.
- Cytuno ar amserlen ddiwygiedig a chytundeb cyflenwi gyda Llywodraeth Cymru a fydd yn arwain at y cynllun cyn-adneuo.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun cyn-adneuo.
- Cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun cyn-adneuo.

## Yr hyn wnaethom ni



Cwblhawyd yr ymgynghoriad ar opsiynau strategol yn Rhagfyr 2016 a rhoddwyd adborth i'r Grŵp Strategaeth Gynllunio yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2017, pan gytunwyd ar yr opsiwn twf a gofodol.



Bu Aelodau'r Cyngor yn ystyried drafft o'r Strategaeth a Ffeirir oedd yn dod i'r amlwg yng Nghyfarfod y Grŵp Strategaeth Gynllunio ym Mawrth 2017 a chadarnhawyd y cynllun oedd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys y weledigaeth, amcanion, yr opsiwn twf a gofodol a ddewiswyd, a'r polisiau strategol drafft.

## Yr hyn wnaethom ni



Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i'r swyddogion fwrw ymlaen â'r gwaith o gwblhau fersiwn ddrafft o'r Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys paratoi dogfennau ategol yn barod ar gyfer eu hystyried yn yr haf, yn dilyn etholiadau'r Cyngor.



3

Lleihau ein hól-troed Carbon drwy:

- Creu dwy fferm solar ar dir Cyngor Sir y Fflint.
- Gosod cyswllt trydan rhwng safle tirlenwi Brook Hill a Depo Alltami neu gytuno ar rwydwaith rhithwir preifat gyda Scottish Power i wneud defnydd llawn o'r ynni a gynhyrchir a lleihau costau.
- Cael caniatâd cynllunio ar gyfer cyflwyno gorsaf trosglwyddo gwastraff ym Maes-glas.
- Sefydlu gorsaf trosglwyddo gwastraff ym Maes-glas.
- Gwella ein perfformiad o ran ailgylchu.
- Lleihau ein hallyriadau carbon.

## Yr hyn wnaethom ni



Mae'r ffigurau o ran ein defnydd cyffredinol o ynni yn dangos gostyngiad ar gyfer pob math o danwydd: Trydan -2.64 %, Nwy -3.49%, Olew -38.72%, LPG -24.84%.



Gostyngiad o 3.69% mewn allyriadau carbon (ffigur cywiriad tywydd) a gostyngiad cyffredinol o 4.78% yn allyriadau carbon y Sir (ffigur heb gywiriad tywydd) o'u cymharu â ffigurau 2015/16.



Cwblhawyd y gweithgareddau a ganlyn yn ystod y flwyddyn: adnewyddu goleuadau yng Nghanolfan Fusnes Maes-glas a goleuadau LED yn Ysgol Bentref Penarlâg, a gosod 3 gosodiad ffotofoltâig yn Ysgol Derwen, Ysgol Babanod Mynydd Isa ac Ysgol Gynradd Brychdyn.



Gwnaethom greu gorsaf trosglwyddo gwastraff ym Maes-glas a ddaeth yn weithredol ar ddiwedd mis Ebrill 2017. Dechreuodd rowndiau casglu ochr y ffordd ollwng yno dridiau'r wythnos ym mis Awst 2017.



4

Adolygu'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd drwy:

- Gwblhau Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Sir y Fflint
- Datblygu rhestr flaenoriaeth o gynlluniau lliniaru llifogydd ar sail meini prawf tryloyw.

## Yr hyn wnaethom ni



Cwblhawyd y gwaith o lunio'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Drafft cyn-ymgyngorol. Yn dilyn ymgynghori, mae disgwyl i'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd terfynol a gymeradwywyd gael eu cyhoeddi yn yr hydref 2017.



Yn dilyn achosion o lifogydd ym Mehefin 2016, cynhaliodd swyddogion nifer o archwiliadau safle a oedd yn sail i geisiadau ariannol diweddarach i Lywodraeth Cymru. Mae'r arian hwn wedi talu am waith brys mewn lleoliadau ar draws Bagillt a Maes-glas.

5

Lleihau achosion ac effaith troseddau amgylcheddol drwy:

- Nodi ardaloedd lle ceir problemau troseddau amgylcheddol ar sail gwybodaeth leol a cheisiadau am wasanaethau
- Targedu ymgyrchoedd gorfodaeth yn yr ardaloedd lle ceir problemau

## Yr hyn wnaethom ni



Yn ystod 2016/17 rhoddwyd dros 3,900 o Hysbysiadau Cosb Benodedig. Caiff llwyddiant y cynllun peilot ei asesu.



Yn dilyn ymgynghori anffurfiol gydag aelodau etholedig cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno Gorchymyn Diogelu Man Cyhoeddus (GDMC). Bydd hyn yn rhoi mwy o bwerau i'r tîm gorfodaeth gymryd camau yn erbyn troseddau baw ci a rheoli cŵn. Yn sgil cyflwyno'r Gorchymyn hwn bydd y tîm gorfodaeth yn gallu gorfodi parthau dim cŵn mewn ardaloedd sensitif fel meysydd chwarae plant a chaeau chwaraeon.



# Cyngor Modern ac Effeithlon



## Datblygu Cymunedau Cynnydd : Boddhaol Canlyniad : Canolig

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn datblygu'r sector cymunedol a chymdeithasol drwy ddatblygu a meithrin mentrau cymdeithasol yn Sir y Fflint, a byddai hynny yn ei dro yn cefnogi a chreu mathau newydd o fusnesau lleol drwy:

- Fonitro nifer y mentrau cymdeithasol newydd a ddatblygwyd.
- Monitro nifer y mentrau cymdeithasol a gafodd gymorth i dyfu a ffynnu.
- Monitro'r buddion cymunedol a ddaeth yn sgil mentrau cymdeithasol newydd.

### Yr hyn wnaethom ni

✓ Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd 11 menter gymdeithasol newydd o'u cymharu â 5 yn 2015/16, roedd y rhain yn cynnwys:

- Canolfan Hamdden Treffynnon, Toe to Toe, a Nomads Cei Connah a ffurfiodd fenter gymdeithasol newydd i redeg Canolfan Ieuenctid Cei Connah.
- Sefydlodd Clwb Bocsio Bwcle fenter gymdeithasol newydd i redeg Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Bistre, a sefydlwyd 'Flintshire Counselling' i ddarparu gwasanaethau cynghori fforddiadwy i ddinasyddion nad ydynt yn gallu defnyddio'r ddarpariaeth brif ffrwd.
- Datblygwyd 'Beyond the Boundaries', salon harddwch yn benodol i greu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc ag anableddau.
- Datblygwyd y Sefydliad Dysgu Emosiynol er mwyn newid y ffordd caiff addysg ei chyflenwi gydag ysgolion cynradd er mwyn addysgu pobl ifanc i dderbyn a delio â'u hemosiynau, boed rheini'n gadarnhaol neu'n negyddol.
- Datblygwyd 'Art and Soul Tribe' er mwyn mynd i'r afael â bwlio a defnyddiwyd sioe ffasiwn amgen i gyfleu eu negeseuon.



- Mae Band Cambria yn rhoi cyfle i bobl leol ddysgu i chwarae offerynnau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â dathlu digwyddiadau a gweithgareddau lleol.
- Mae Canolfan Gymuned Trelogan yn rheoli adeilad cymunedol yng nghanol y gymuned er budd trigolion lleol.



Darparwyd amrediad eang o gymorth busnes, cyngor ac arweiniad i 24 menter gymdeithasol sy'n gweithredu yn Sir y Fflint dros y flwyddyn ddiwethaf o'u cymharu â 12 menter yn 2015/16, ymhlith y rhai a dderbyniodd y cymorth hwn roedd:

- Canolfan Hamdden Treffynnon
- Toe to Toe
- Nomads Cei Connah
- Clwb Bocsiio Bwcle
- RainbowBiz
- Mentrau Cymunedol Gorllewin Sir y Fflint
- Groundwork Gogledd Cymru
- Flintshire Counselling CIC
- Clwb Rygbi'r Wyddgrug
- The Clocktower
- Beyond the Boundaries CIC
- Emotional Learning Foundation CIC
- Amser Babi Cymraeg
- BREW
- Canolfan Gymuned Parkfields
- Neighbourhood Economics
- Art and Soul Tribe CIC
- Band Cambria CIC

**2**

Annog gwirfoddolwyr a dinasyddion gweithgar drwy:

- Fonitro effaith y polisi gwirfoddoli lleol.

## Yr hyn wnaethom ni



Mae annog gwirfoddolwyr a dinasyddion gweithgar yn rhaglen fwy hirdymor. Cafodd y polisi gwirfoddoli ei rannu gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid y sector cyhoeddus o dan flaenoriaeth "cydnerthedd cymunedol" y Bwrdd.

**3**

3. Sicrhau budd cymunedol yn ein gwaith o gomisiynu nwyddau a gwasanaethau drwy:

- Sefydlu Bwrdd Buddion Cymunedol â chynllun gweithredu.
- Monitro canran y cymalau Buddion Cymunedol a gaiff eu cynnwys mewn contractau caffael newydd.



## Yr hyn wnaethom ni



Mae'r Bwrdd Buddion Cymunedol yn canolbwyntio ar Brentisiaethau Academi felly mae ei effeithiau ehangach yn gyfyngedig. Ers cyflwyno'r Rheolau Gweithdrefnau Contract newydd a'r Ffurflen Gomisiynu yn Nhachwedd 2016, mae pob prosiect dros £1m bellach yn cynnwys cymalau Buddion Cymunedol. Mae'r Ffurflenni Comisiynu yn cael eu hadolygu gan y Tîm Caffael Corfforaethol ar gyfer pob prosiect dros £25k – gan arwain felly at gynnydd yn yr achosion o gynnwys Buddion Cymunedol mewn contractaug.



**4** Cynllunio a gweithredu Modelau Cyflenwi Amgen er mwyn cynnal gwasanaethau pwysig i ateb y galw yn y dyfodol drwy:

- Fonitoro lefel yr arbedion effeithlonrwydd a gefnogwyd gan Fodelau Cyflenwi Amgen.
- Monitro nifer y gwasanaethau a gynhaliwyd drwy fodelau cyflenwi amgen.

## Yr hyn wnaethom ni



Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer 2016/17 gyda grŵp allweddol o fentrau cymdeithasol gyda'r nod o roi arweiniad a mwy o gymorth i'r sector. Roedd y cynllun yn cynnwys:

- Dau gontract penodol wedi'u targedu at y sector
- Cymorth busnes a sesiynau Gorsedd y Dreigiau
- Gwobr fusnes newydd yn benodol ar gyfer y sector menter gymdeithasol yn ystod wythnos fusnes; a
- Datblygu polisi buddion cymunedol ar gyfer Sir y Fflint.

Cynllun tair blynedd yw hwn a'r nod yw ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2018, ac mae dau draean o'r ffordd ar hyn o bryd ac ar y targed.



**5** Grymuso cymunedau i redeg a rheoli cyfleusterau yn lleol drwy Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol, drwy:

- Fonitoro nifer yr asedau cyhoeddus a drosglwyddir yn ddiogel i'r gymuned.
- Monitro'r buddion cymunedol a gyflenwir drwy Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol.

## Yr hyn wnaethom ni



Yn ystod 2016/17, roedd 19 Trosglwyddiad Ased Cymunedol wedi eu cwblhau'n gyfreithlon neu bron â'u cwblhau, sef:

- Canolfan Gymuned a Llyfrgell Argoed (Café Isa);
- Canolfan Ieuencid a Chymuned Bistre;
- Pwll Nofio Cei Connah ('Cambrian Aquatics');
- Clwb Ieuencid Cei Connah;
- Rhandroedd Cei Connah (Mill Lane);



- Adeilad Sgowtiaid Cei Connah;
- Clwb Criced Cei Connah;
- Hen Swyddfa'r Cofrestrydd, Treffynnon;
- Clwb Bowlio Maes-glas;
- Neuadd Bentref Gwernaffield;
- Llyfrgell Yr Hob;
- Llyfrgell Treffynnon (Toe to Toe);
- Canolfan Hamdden Treffynnon;
- Llyfrgell Mancot;
- Cae Chwarae Maes Pennant, Mostyn;
- Clwb Rygbi'r Wyddgrug;
- Clwb Bowlio Mostyn,
- Grwpiau Sgowtiaid, amrywiol;
- Canolfan Gymuned Trelogan.



Er mwyn rhoi cymorth i drosglwyddiadau sydd eisoes wedi'u cwblhau, cynhaliwyd 4 ymweliad monitro ac mae'r gweddill wedi'u cynllunio ar gyfer dechrau 2017/18.



6

Sicrhau nad yw ein Cymuned Lluoedd Arfog a'u teuluoedd o dan anfantais wrth gael mynediad at Wasanaethau'r Cyngor drwy:

- Ffôn cyflawniadau Cynllun Gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog

## Yr hyn wnaethom ni



Mae Sir y Fflint wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau nad yw cymuned y Lluoedd Arfog o dan anfantais wrth gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Rydym wedi ennill gwobr Efydd Cynllun Cydnabod Gweithwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn ac rydym am geisio ennill y wobwr arian. Sicrhawyd arian rhanbarthol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a bydd hyn yn cynnal dwy swydd cydlynedd am 2 flynedd i weithio ar draws chwe awdurdod i gefnogi'r gwaith o gyflenwi amcanion y Cyfamod.

# Gwella Rheoli Adnoddau

Cynnydd : **Da**      Canlyniad : **Canolig**

1

Yn ystod 2016/17 fe wnaethom ddweud y byddem yn datblygu a gweithredu cynllun ariannol tair blynedd sy'n adlewyrchu ariannu, costau ac arbedion effeithlonrwydd a ragwelir i gefnogi gwneud penderfyniadau strategol drwy:

- Adolygu ein cynllun i ddiwallu'r bwch ariannu £38m.
- Buddsoddi mewn refeniw a chyfalaf er mwyn cyfateb i'n blaenoriaethau.
- Cyrraedd ein targedau arbedion effeithlonrwydd.


## Yr hyn wnaethom ni



Mabwysiadodd y Cabinet y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Mae'r canlyniad lliw oren oherwydd ansicrwydd ynghylch setliadau ariannol y dyfodol. Derbyniwyd y setliad dros dro i Lywodraeth Leol ar 19 Hydref 2016 ac roedd yn fwy ffafriol na'r hyn a ragwelwyd o fewn y Strategaeth. Roedd hyn oherwydd nad oedd llawer o newid yn lefel ariannu 2016/17 er bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canol wedi rhagdybio toriad o 1.5%. Datblygwyd a chytunwyd ar y gyllideb ariannol mewn tri cham rhwng Medi a Chwefror.



Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd yn ystod 2016/17 oedd £9.557m yn erbyn targed o £10.521m – sef cyfradd gyflawni o 91%.



2

Gweithredu Strategaeth y Bobl i sicrhau bod gan y Cyngor y capasiti a'r gallu i weithredu'n effeithiol fel sefydliad llai drwy:

- Gymryd rhan yn Rhaglenni Hyfforddiant a Datblygu Academiâu Sir y Fflint.
- Monitro effaith rheoli perfformiad pobl.
- Monitro effaith Datblygiad a Thalent y Gweithiwr newydd.
- Rheoli ein gallu i gadw gweithwyr
- Monitro effaith Strategaeth y Bobl mewn portffolios gwasanaeth.

## Yr hyn wnaethom ni



Cymeradwywyd Strategaeth y Bobl wedi'i diweddarau ar gyfer 2016-19 gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2016. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu anghenion sefydliadol ac ynparu capasiti â blaenoriaethau. Yn ystod cyfnod dros dro o adolygu'r strategaeth, mae adnoddau wedi eu blaenoriaethu i ddiwallu'r prif anghenion sefydliadol gan gynnwys adolygiadau gwasanaeth, newidiadau i fodel gwasanaethau a gaiff eu harwain gan effeithlonrwydd, y pontio i Fodelau Cyflenwi Amgen, a rhaglenni lleihau graddfa a chostau'r gweithlu.

✓ Roedd cymryd rhan yn Rhaglenni Hyfforddiant a Datblygu Academiâu Sir y Fflint yn fesur newydd ar gyfer 2016/17 ac mae'n cyfeirio at le astudio neu ddysgu sy'n ymdrin ag Arwain a Rheoli, datblygiad personol cyffredinol a/neu yn ymwneud â rôl benodol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yr Iaith Gymraeg, Iechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf, a TGCh. Yn ystod y flwyddyn bu 868 o weithwyr yn cymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant.

! Derbyniodd 65% o weithwyr werthusiad blynyddol yn ystod 2016/17. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y cynhelir gwerthusiadau blynyddol, amserol ar gyfer pob gweithiwr a'u bod wedi'u cofnodi ar iTrent.

✓ Mae absenoldeb salwch wedi gostwng i 9.87 diwrnod gwaith fesul sifft fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod 2016/17 o'i gymharu â 10.5 yn 2015/16.

! Canran y trosiant ymhlith gweithwyr yn ystod 2016/17 oedd 12.36%. Mae hyn yn dangos newid o'r ffigurau cymharol ar gyfer 2015/16 (10.64%) yn rhannol oherwydd bod Gweithwyr chwarae Cymunedol a gweithwyr o fewn gwasanaethau wedi eu cynnwys yn y Modelau Gwasanaeth Amgen yn yr achosion lle cafodd gwasanaethau eu trosglwyddo'n allanol.

**3** Rhesymoli defnydd y Cyngor o swyddfeydd corfforaethol drwy:

- Leihau arwynebedd llawr a chostau swyddfeydd a ddefnyddir.
- Cynyddu nifer /canran y gweithwyr sy'n gweithio mewn ffordd hyblyg.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Mae swyddfeydd corfforaethol y Cyngor yn cael eu rhesymoli drwy leihau arwynebedd llawr, costau swyddfeydd a ddefnyddir, a chynyddu nifer /canran y gweithwyr sy'n gweithio mewn ffordd hyblyg. Mae'r cynlluniau i wneud y mwyaf o'r lle yn Swyddfeydd y Fflint ac Alltami yn parhau, ynghyd â rhesymoli Neuadd y Sir. Mae adleoli gwasanaethau o Gam 4 i Gamau 1 a 2 wedi golygu bod 3,571 metr sgwâr ychwanegol ar gael yn Neuadd y Sir. Cyfanswm y lle gwag cronnus yw 5,579 metr sgwâr.

✓ Yn ystod y flwyddyn costau rhedeg gweddill y swyddfeydd corfforaethol oedd £1,324,861. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 31% o'r ffigur gwaelodlin. Mae'r ffigur cyfatebol ar gyfer 2016/17 yn ostyngiad o £604,139.

✓ Roedd 87% o'r gweithwyr yn gweithio mewn ffordd hyblyg yn Neuadd y Sir, sef cymhareb o 819 desg i 944 o weithwyr.

**4** Gwneud y gorau o arbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio cynlluniau caffael rhanbarthol a chenedlaethol ar y cyd a gwneud mwy o ddefnydd o ddatrysiadau electronig drwy:

- Greu arbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio trefniadau caffael lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Lleihau cost caffael drwy ddefnyddio dulliau prynu electronig cynhwysfawr.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Yn ystod y flwyddyn mae cynnydd wedi bod wrth gyflenwi arbedion effeithlonrwydd ym maes prynu drwy ddefnyddio trefniadau caffael rhanbarthol a chenedlaethol ar y cyd yn sgil defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, a chanfod cyfleoedd ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych.

✓ Mae'r meysydd lle ceir y gwariant mwyaf wedi parhau i ymgysylltu a defnyddio'r Porth Proactis ar gyfer gweithgareddau tendro bob dydd gan arwain at fwy o gydymffurfio â Rheolau'r Gweithdrefnau Contract yn ogystal â chyflenwi arbedion effeithlonrwydd prosesau.

**5** Croesawu sianeli digidol fel y cynllun gwasanaeth rhagosodedig lle bo'n bosibl er mwyn darparu mynediad at wasanaethau ar-lein ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r cwsmer drwy:

- Gynnyddu nifer y gwasanaethau trafodol y gellir eu gwneud ar-lein a thrwy Ap Sir y Fflint.
- Cynnyddu'r defnydd o wasanaethau ar-lein.
- Ymateb i adborth cwsmeriaid gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael iddynt yn y pwynt cyswllt cyntaf ar-lein.

## Yr hyn wnaethom ni

✓ Cymeradwywyd y Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd gan y Cabinet ac mae'n nodi cynllun y Cyngor i drawsnewid y ffordd bydd cwsmeriaid yn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor dros y pum mlynedd nesaf; bydd hyn yn cynnwys adolygu'r ffordd mae cwsmeriaid yn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar hyn o bryd a chyfleoedd i foderneiddio'r holl sianeli mynediad wyneb-yn-wyneb, ffôn a digidol.

✓ Roedd cynnydd yn nifer y trafodion digidol ar-lein, a dewisodd 11,142 o gwsmeriaid gyfathrebu gyda'r Cyngor ar-lein drwy'r wefan. Hefyd, roedd cynnydd o 19% yn nifer y bobl a ddefnyddiodd gwefan y Cyngor. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Cwsmeriaid yn parhau i weithio'n agos gyda TGCh i flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer eu trawsnewid.



✓ Yn ystod 2016/17 roedd cynnydd ym mhob chwarter yn nifer yr ymholiadau digidol h.y. gwefan, e-ffurflenni, Ap Symudol a Sgwrs Byw, a derbyniwyd dros 31,000 o ymholiadau ar-lein yn ystod y flwyddyn. Roedd y cynnydd mwyaf yn ystod y chwarter olaf a derbyniwyd 11,809 o ymholiadau o'u cymharu â 7,460 yn ystod y chwarter blaenorol. Hefyd, roedd cynnydd yn nifer y bobl oedd yn edrych ar wefan NEW Homes a dewisodd 1,421 o ddefnyddwyr edrych ar gyfleoedd tai ar-lein.

✓ Yn ystod 2016/17 roedd y defnydd o'r wefan yn gyson, ac fe wnaeth 765,000 o bobl ymweld â gwefan Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn. Ar gyfartaledd, mae hyn yn cyfateb i 191,000 ymwelydd fesul chwarter. Edrychwyd ar dros 4.7 miliwn o dudalennau gwe yn ystod y flwyddyn. Roedd cynnydd yn nifer defnyddwyr gwefan y Cyngor yn ystod y chwarter olaf: ymwelodd 214,196 o ddefnyddwyr â'r wefan, ac roedd pob defnyddiwr yn ymweld 2.29 gwaith ar gyfartaledd yn ystod y chwarter. Ymwelodd pob defnyddiwr 2.29 o weithiau ar gyfartaledd yn ystod y chwarter. Edrychwyd ar dros 1.3 miliwn o dudalennau gwe, gan olygu bod defnyddwyr y wefan yn edrych ar tua 6 thudalen wrth ymweld â'n gwefan.

## Adran 3

### Cydraddoldeb

Mae'r Cyngor yn cymryd ei ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da trwy ei holl weithgareddau, o ddifrif. Cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ddiweddarau yn 2016; mae hwn yn cael ei ymgorffori i CAMMS (system rheoli perfformiad) er mwyn sicrhau y gellir monitro cynnydd a chyflawniadau yn fwy effeithiol ac y darperir diweddariadau rheolaidd.

- ✓ Rydym yn datblygu system electronig ar gyfer asesiadau o effaith integredig. Bydd hon ar waith erbyn hydref 2017. Bydd yn sicrhau y caiff asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg eu cynnal yn systematig fel rhan o benderfyniadau busnes a pholisi i lywio'r broses wneud penderfyniadau.
- ✓ Gwnaethom gymryd rhan yng Ngŵyl Amrywiaeth gyntaf Sir y Fflint, gan hyrwyddo ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb a chynyddu mynediad at wasanaethau.
- ✓ Gwnaethom gwblhau archwiliad Cyflog Cyfartal, a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar y gwahaniaeth tâl rhwng dynion a merched, ond bydd archwiliadau tâl y dyfodol yn cynnwys grwpiau eraill a ddiogelir.



Mae cynnydd yn parhau i fod yn anghyson ar draws portffolios gwasanaethau, bydd ymgorffori'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol o fewn proses gynllunio busnes newydd y Cyngor yn cyfrannu at systemau adrodd mwy effeithlon. Un maes allweddol o welliant yw casglu data sylfaenol i nodi'r meysydd hynny o anghydraddoldeb sylweddol lle mae angen i ni dargedu ein hadnoddau i wella canlyniadau ar gyfer ein cwsmeriaid.

Mae angen i ni gynyddu'r archwiliad amrywiaeth gweithwyr er mwyn sicrhau y gellir cynnal archwiliad cyflog cyfartal manwl ym mis Medi 2017.

### Safonau Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i fodloni'r Safonau Iaith Gymraeg, gan sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym wedi ymgymryd â sawl gweithgaredd yn ystod y 12 mis diwethaf i nodi proffil sgiliau'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad ac i godi gwelededd a chlywadwyedd yr iaith:

- ✓ Cynyddodd canran y gweithwyr a gwblhaodd yr archwiliad sgiliau iaith Gymraeg o 42% i 82% yn ystod 2016/17. Mae nodi sgiliau iaith gweithwyr yn helpu rheolwyr i gynllunio i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Ein nod yw cyflawni cyfradd cwblhau o 100% erbyn 31 Mawrth 2018.
- ✓ Gwnaethom gefnogi Menter Iaith i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Llwyddiannus yn nhref y Fflint. Mae cynlluniau i barhau i gefnogi dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn y gymuned.
- ✓ Mae Rhwydwaith Y Gymraeg y Cyngor wedi bod yn rhan o fentrau i godi proffil yr iaith Gymraeg yn y Cyngor.
- ✓ Mewn partneriaeth â Menter Iaith a Choleg Cambria, gwnaethom hyrwyddo'r iaith Gymraeg i fusnesau lleol fel rhan o weithgareddau Wythnos Fusnes.





Ni allwn ddarparu gwasanaethau rhagorol yn y Gymraeg os nad oes nifer digonol o weithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg priodol ym mhob man darparu gwasanaeth ac ym mhob gweithle lle bydd cyswllt â'r cyhoedd. Mae angen i ni adolygu ein polisiau Rheoli Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau y gallwn atynnu a chadw siaradwyr Cymraeg a sicrhau ein bod yn gallu darparu cyfleoedd i weithwyr ddatblygu a chynnal eu sgiliau iaith Gymraeg.

Dolen i [Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg](#) diwedd blwyddyn manwl.

## Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod Cymru yn wynebu nifer o heriau yn awr ac yn y dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd a swyddi a thwf. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i weithio gyda'n gilydd a meddwl am effeithiau tymor hir penderfyniadau er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.



O fewn y Cyngor, mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, sydd wedi canolbwyntio ar sicrhau gwasanaethau hanfodol ar gyfer y dyfodol. Mae hyn wedi ei ddangos yn gynharach yn yr adroddiad trwy, er enghraifft:

- o Ein newid ein hunain yn y model gweithredol ac integreiddio unedau busnes.
- o Mwy o gydweithio a gwaith partneriaeth.
- o Lefelau uwch o ymgynghori â phobl leol, e.e. Ein Sir y Fflint, Ein Dyfodol.
- o Datblygiad parhaus modelau darparu gwasanaeth amgen.



Mae ein gwaith i gynnal gwasanaethau yn parhau i mewn i 2017/18 ac yn amlwg drwy Gynllun y Cyngor ar gyfer 2017/18, yn enwedig mewn adrannau megis 'Datblygu Cymunedau' lle rydym yn cefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn a hunangynhaliol.

## Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio

Mae gan Sir y Fflint hanes hir a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn disgwyl i'r partneriaid yn y sector statudol a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd, i weithio at flaenoriaethau a rennir a, trwy ymdrech ar y cyd, i gyflawni pethau. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ganolog o ran hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gydweithio ac yn canolbwyntio egni, ymdrech ac adnoddau ar rai o'r materion cymdeithasol mawr heddiw.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ar 1 Ebrill 2016 o ganlyniad i "Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)" yn dod i rym. Mae BGC Sir y Fflint yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol: Cyngor Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (aelodau Statudol), Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Coleg Cambria, Prifysgol Glyndŵr, Ailsefydlu Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Llywodraeth Cymru (aelodau BGC a wahoddiwyd).

Gyda'i gilydd mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Lles i Sir y Fflint a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

Er bod y BGC yn sylweddoli bod llawer y gellid ei wneud i ychwanegu gwerth at wasanaeth cyhoeddus ac i gymunedau Sir y Fflint maent wedi nodi nifer o flaenoriaethau ar gyfer 2017/18 sy'n cefnogi saith nod "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)". Y rhain yw:-

- Lles a Byw'n Annibynnol
- Cymunedau Diogel a Gwydn
- Diogelwch Cymunedol
- Economi
- Amgylchedd

## **Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu**

Mae'r Cyngor yn cael ei reoleiddio gan nifer o sefydliadau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ar gyfer Addysg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC).

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad blynyddol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2016/17 o'r enw Adroddiad Gwella Blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r holl waith mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â hwy. Gwnaed pedwar cynnig ymgynghorol ar gyfer gwella, sydd wedi'u rhestru yn nhabl 3 isod:

Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi llunio cynllun gweithredu er mwyn monitro cynnydd yn rheolaidd yn ei erbyn.

Tabl 3

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwelliant
<b>Llywodraethu</b>			
Mai 2017	<p><b>lywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau gwasanaeth</b></p> <p>Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer pennu newidiadau gwasanaeth.</p>	<p>Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer pennu newid sylweddol mewn gwasanaeth yn effeithiol ar y cyfan, gyda rhai cyfleoedd i gryfhau ei ddull ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:</p> <p>Mae gan y Cyngor weledigaeth glir a dull strategol ar gyfer pennu newidiadau gwasanaeth;</p> <p>Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer prosesau penderfynu ynghylch newid gwasanaeth yn glir, yn gynhwysfawr ac yn cael eu deall yn dda;</p> <p>Mae arfarniadau opsiynau sy'n ymwneud â newid gwasanaeth yn gadarn, yn dryloyw ac yn amrywiol iawn;</p> <p>Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u hysbysu am gynigion newid gwasanaeth, eu goblygiadau posibl a'r prosesau a ddefnyddir i ddod i benderfyniad;</p> <p>Mae trefniadau corfforaethol ar gyfer monitro effaith newid gwasanaeth yn glir yn gyffredinol, ond mae lle i wneud rôl craffu yn fwy clir; a</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu a choethi ei drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau ac mae'n ymateb yn bositif i adborth archwilio allanol.</p>	<p>Gellid cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor trwy:</p> <p>C1 Diffinio rôl Pwyllgorau Craffu yn glir o ran adolygu effaith newid gwasanaethau unigol a thrwy annog pwyllgorau i adlewyrchu'r rôl hon yn eu Cynlluniau Gwaith at y Dyfodol</p> <p>C2 Sicrhau fod Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb sy'n gysylltiedig â newid gwasanaeth o safon uchel yn gyson.</p> <p>C3 Sicrhau bod adolygiadau mewnol o'i drefniadau llywodraethu – megis y Datganiad Llywodraethu Blynyddol – yn ystyried llywodraethu yn benodol mewn perthynas â phenderfyniadau am newid i'r gwasanaeth.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwelliant
<b>Defnyddio adnoddau</b>			
Tachwedd 2016	<p><b>Llythyr archwiliad blynyddol 2015-16</b></p> <p>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.</p>	<p>Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau.</p> <p>Mae gan y Cyngor drefniadau priodol mewn lle i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau; ac</p> <p>Nid yw'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grantiau wedi canfod unrhyw broblemau sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 neu systemau ariannol allweddol.</p>	Dim
Ionawr 2017	<p><b>Cynllunio arbedion</b></p> <p>Adolygu trefniadau arbedion ariannol y Cyngor, gan gynnwys pa mor dda y mae'n cyflawni'r arbedion gofynnol a p'un a oes dulliau cadarn ar waith i gynllunio, rheoli a chyflawni arbedion y gyllideb, ar gyflymder sy'n cefnogi gwytnwch ariannol.</p>	<p>Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ac mae'n parhau i gryfhau ei waith cynllunio ariannol i gefnogi gwell gwytnwch ariannol yn y dyfodol.</p> <p>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:</p> <p><b>Cyflawni arbedion 2015-16</b></p> <p>Mae'r Cyngor yn adrodd ei fod wedi cyflawni 83% o'i arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16 a gall arddangos fod arbedion unigol wedi'u cyflawni.</p> <p><b>Trefniadau cynllunio ariannol</b></p> <p>Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol ac mae'n bwriadu ymestyn hyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i bum mlynedd er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cynlluniau dangosol ar gyfer y dyfodol.</p> <p><b>Cynllun Arbedion 2016-17</b></p> <p>Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni 90% o'i arbedion adolygedig a gynlluniwyd ar gyfer 2016-17 ond ni fydd pob un o'i gynigion arbed wedi'u datblygu'n ddigonol pan gymeradwyir y gyllideb.</p>	C1 Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod yr holl gynigion arbedion yn datblygu'n ddigonol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn cael eu gweithredu.

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwelliant
<b>Cynllunio ar gyfer gwella ac adrodd</b>			
Gorffennaf 2016	Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru Adolygiad o gynlluniau cyhoeddiedig y Cyngor ar gyfer cyflawni ar amcanion gwella.	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliannau statudol.	Dim
Tachwedd 2016	Archwiliad asesu perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau adrodd gwelliannau statudol.	Dim
Gorffennaf 2016	Adolygiad o asesiad perfformiad y Cyngor wedi'i gyhoeddi.		
<b>Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio</b>			
Ni chynhaliwyd adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn ystod y cyfnod			

## Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau fel cyflogwr o ran iechyd a diogelwch. Rheoli gweithleoedd sy'n ddiogel i iechyd pob un o weithwyr y Cyngor, isgontractwyr, budd-ddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yw un o'n prif flaenoriaethau. I fodloni'r flaenoriaeth hon, rydym yn bwriadu bodloni gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaethau cysylltiedig eraill cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

✓ Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu system gadarn ar gyfer adrodd am ddamweiniau/digwyddiadau/damweiniau fu bron â digwydd a chaiff yr holl ddamweiniau a adroddir o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu hymchwilio. Caiff yr holl ddata ystadegol ei gasglu gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'i roi i'r portffolio/gwasanaethau perthnasol i'w ddadansoddi am dueddiadau manwl.

✓ Mae'r Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn parhau i gyfarfod yn chwarterol yn chwarae rhan fawr wrth nodi blaenoriaethau rheoli risg a dangos arweinyddiaeth iechyd a diogelwch. Mae pob Portffolio wedi cyflwyno adroddiadau blynyddol iechyd a diogelwch i'r grŵp, adolygu a diweddarau cynlluniau gweithredu iechyd a diogelwch wedi eu diweddarau, ystadegau damwain/ymchwilio manwl a data hawliadau am 2016/17.

✓ Mae pob Portffolio yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor o ran iechyd a diogelwch ac yn cynnwys iechyd a diogelwch mewn cyfarfodydd ffurfiol, gan gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau eu bod nhw'n rhan o'r broses cynllunio strategol a gweithredol a bod penderfyniadau busnes strategol yn eu Gwasanaeth(au) yn destun dadansoddiad peryglon a risgiau systematig.

✓ Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant iechyd a diogelwch yn parhau i fod ar gael. Mae anghenion hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu nodi trwy arfarniadau dysgu a datblygu ac yn cael eu cyflwyno yn fewnol ac yn allanol.

✓ Mae mentrau ar gyfer 2016/17 wedi cynnwys:

- Datblygu system adrodd am ddamweiniau/digwyddiadau newydd a fydd yn darparu ffurflen electronig ac yn gydnaws â systemau TGCh newydd - i'w gyflwyno ar ddiwedd 2017.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cwblhau'r rhaglenni e-ddysgu i ategu gweithio hyblyg
- Rhaglen Hyfforddi Ymwybyddiaeth o Asbestos a Legionella ar gyfer rheolwyr safle
- Hyfforddiant Dirgryniad Llaw a Braich a rhaglen fonitro
- Datblygu cytundebau lefel gwasanaeth iechyd a diogelwch ffurfiol i gefnogi'r Modelau Cyflawni Amgen ac Ysgolion.

✓ Mae'n bwysig bod gweithwyr a rheolwyr yn sicrhau bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu a/neu eu cynnal a'u monitro drwy gyfnodau o newid. Bydd y Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Tîm Prif Swyddogion yn parhau i geisio sicrwydd gan bob un o'r portffolios am y trefniadau hyn a bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau iechyd a diogelwch trwy raglen dreigl o arolygiadau/ymchwiliadau ac archwiliadau damweiniau.

## Atodiadau

**Atodiad A** – Cynllun Gwella 2016/17 Cofrestr Risg

**Atodiad B** – Tabl data Mesurau Cynllun Gwella

**Atodiad C** – Tabl Data Dangosyddion Cenedlaethol

**Atodiad D** – Rhestr Termau

## Adborth a sut i gael Rhagor o Wybodaeth

Mae nifer o ddogfennau cysylltiedig sy'n ategu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn. Gellir cael y rhain drwy'r dolenni canlynol:

- [Cynllun Gwella Cyngor Sir y Fflint 2016/17](#)
- [Bwletin Perfformiad Cenedlaethol 2016/17](#)
- [Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint 2016/17](#)
- [Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016/17](#)
- [Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg 2016/17](#)

# Diolch i chi am ddarllen ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol 2016/17.

Bydd crynodeb cyhoeddus o'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi cyn mis Rhagfyr a bydd ar gael ar wefan y Cyngor a drwy ein e-gylchgrawn.

Croesewir eich sylwadau a'ch awgrymiadau ynghylch sut y gallem wella'r cynnwys a chynllun yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, pe hoffech wybod mwy am ein blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 ymlaen, darllenwch [Gynllun y Cyngor 2017/23](#). Unwaith eto, croesewir eich barn ynglŷn â blaenoriaethau yn y dyfodol, cynnwys y cynllun a'r gosodiad.

### Cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 01352 701457

E-bost: [corporatebusiness@flintshire.gov.uk](mailto:corporatebusiness@flintshire.gov.uk)